

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



Rhifyn 292 - 60c
Ebrill 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybyddi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Hanner Awr Adloniant



Tudalen 2

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc



Tudalen 13

Eisteddfod Sir Ceredigion



Tudalen 24

Gofid Melinau Gwynt Mynydd Llanllwni

Os ydych wedi teithio drwy bentref Llanllwni'n ddiweddar, mae wedi bod yn amhosib anwybyddu'r goedwig o arwyddion ar ochr y ffordd fawr gyda'r negeseuon "Achubwn ein mynydd ni" a "Dim Tyrbinau ar Fynydd Llanllwni".

Mae cwmni RES wedi gwneud cais cynllunio i godi 21 o dyrbinau gwynt ar Fynydd Llanllwni a phob tyrbina saith gwaith yn uwch na thŵr eglwys y plwyf. Beth yw eich barn chi?

O blaid...

Byddai manteision ariannol i hynny'n lleol. Mae'n wir y gall rai tirfeddianwyr elwa o godi tyrbinau gwynt ar eu tir, ond yn achos Mynydd Llanllwni bwriedir codi'r mwyafrif ar dir y Goron. Gall y gymuned elwa hefyd. Dyranir miloedd o bunnoedd bob blwyddyn i gymunedau Alltwalis yn sgil y fferm wynt yn yr ardal honno.

Gellir cofnodi fod Llanllwni eisoes wedi elwa o gronfa Statcraft - Clwb Ffermwyr Ifanc - £326 ar gyfer prynu camcorder digidol; Ysgol - £2000 ar gyfer adeiladu cysgodfan i'r plant gael chwarae allan ar dywydd garw; Cylch Meithrin - £3549 ar gyfer gwahanol weithgareddau.

Y mae cymunedau Llanfihangel, Gwyddgrug, Alltwalis a Phontwelly wedi elwa o tua £42,000 yn y flwyddyn gyntaf ac mae £75,000 wedi cyrraedd yn barod erbyn yr ail flwyddyn. Gwahoddir ceisiadau am brosiectau sydd angen cymorth.

Ynni Glân

Mewn datganiad gan Gyfeillion y Ddaear, dywedir "Ynni gwynt yw un o'r mathau o ynni mwyaf glân, diogel a chost-ffeithiol sydd ar gael. Mae'r tanwydd i'w gael am ddim, ni fydd byth yn gorffen, nid oes cynnyrch gwastraff ac ni chynhyrchir llygredd. Yn dechnegol hwn yw'r mwyaf datblygedig o'r dewisiadau ynni adnewyddadwy sydd ar gael a gall sicrhau'r toriadau mewn allyriadau CO2 sydd eu mawr angen a hynny nawr. Mewn byd sydd dan fygythiad cynyddol gan newid hinsawdd, cyflenwadau ansicr o ynni, olew brig a chynnydd mewn prisiau ynni, mae gan bŵer gwynt lawer i'w gynniig."

Yn erbyn...

Gwrthwyneba rhai preswylwyr ar sail y sŵn a ddaw oddi wrthynt a gwrthwyneba eraill eu bod yn anharddu cefn gwlad. Ond nid yw mwyafrif trigolion Llanllwni yn gwrthwynebu ynni gwynt o ran egwyddor, eu gwrthwynebiad pennaf nhw yw yn erbyn codi'r tyrbinau ar dir gwyllt Mynydd Llanllwni.



Delwedd a grewyd gan y grŵp ymgyrchu o'r effaith y byddai'r melinau gwynt yn eu cael ar dirwedd Mynydd Llanllwni.

Corddwyd rhai o drigolion y plwyf i fynegi eu teimladau ar gân. Mae'r geiriau isod yn barodi ar y gân boblogaidd Dŵr ac yn addas i'w canu ar dŵn y gân honno a boblogeiddiwyd gan Huw Jones:

"Tŵr sy'n mynd i lofruddio cefn gwlad,
Lle bu fy mam a nhad,
A nawr, minnau'n byw
Mae'r diwydianwyr gyda'u stŵr
Yn mynd i godi un ar hugain tŵr
Mor erchyll a diangen dros drigfannau'n bro..."

Thema gyson y sgwrs rhwng y rheini a ddaeth i'r Neuadd oedd y dinistr parhaol a ddigwyddai i'r mynydd agored. Tinc o waith yr Hen Ficer,

hwyrach, a glywir yn y llinellau nesaf a adawyd gyda'r trefnwyr:

"Pwyllgor planio Sir Gaerfyrddin
Arferwch bwyll cyn pasio'r cynllun
Cofiwch am drigolion lleol
Fydd yn gweld y rhain yn ddyddiol"

Cyfrifir y bydd 50 o lorïau'n cario conerid yn ddyddiol i baratoi sylfeini i bob tyrbina a bod angen 50 tunnell o ddur i sefydlu pob tyrbina. Adeilidir gorsafoedd a gweithdai parhaol ar fynydd-dir agored a throir rhostir gwyllt yn safle diwydiannol.

Mae'r grŵp ymgyrchu wedi creu delweddau o'r effaith y byddai'r melinau gwynt yn eu cael ar dirwedd y mynydd. Bydd delweddau yn cael eu dangos bob wythnos o hyn ymlaen ar fyrddau cymunedol y plwyf er mwyn dangos maint y trais a fwriedir ar y mynydd.

Manylion Pellach

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn y plwyf i wrthsefyll y cynllun. Gellir cysylltu ag ef ar 01559 395309. Ceir gwybodaeth gan gwmni RES ar wefan www.mynyddllanllwni.co.uk a gwybodaeth gan Gyfeillion y Ddaear ar wefan www.foe.co.uk



Drwy sefydlu fferm wynt ar y mynydd ni fyddai'n parhau fel tir gwyllt. Bwriedir gosod ffyrdd 30 llath o led yn cysylltu'r tyrbinau gan adael ond ychydig o wyrddni ar ôl heb sôn am dir pori.

Effaith gweledol

Daeth cynulleidfau niferus i Neuadd Gymunedol Llanllwni i weld ac i synnu ar y gwir effaith y byddai tyrbinau gwynt yn cael ar fywydau trigolion plwyf Llanllwni ac ar fywydau trigolion plwyf cyfagos Llanwenog, Llanfihangel-ar-Arth, Llandysul, Llanybydder, Pencarreg a Brechfa ac ardaloedd mor bell i ffwrdd â'r Mynydd Du a'r Preseli.

Hanner Awr Adloniant Clybiau Ffermwyr Ieuainc



Actores Orau dan 26 oed Ceredigion
- Eimir Ryder, Clwb Pontsian.




Rhanwyd gwobr yr actor gorau dan 16 oed yng Ngheredigion rhwng
Aron Dafydd, Rhodri Pugh Davies a Gethin Morgan Clwb Bro'r Dderi.



Lynda Jones, Clwb Llanwenog
- Cynrychudd Gorau Ceredigion.



Clwb Cwmann "Rhaglen Jonathan" - pumed
yn Sir Gaerfyrddin



Clwb Dyffryn Cothi "Trafferth yn y Tabernacl"
- cyntaf yn Sir Gaerfyrddin ac ail ar lefel Cymru



Clwb Llanllwni "I golwg hi sy' waethaf" yn ail yn Sir Gaerfyrddin. Owain
Davies yr actor gorau o dan 18 a Rhian Davies yr actores orau dan 18 oed.



Pengwins Llanwenog



Clwb Llanwenog "O'r Pumed Dydd" - Cyntaf yn Ngheredigion
a Thrydydd ar lefel Cymru.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Ebrill a Mai e-bost:	Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin golygydd@clonc.co.uk	01545571234
Tim Golygyddol:	Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu e-bost:	Eifion Davies, Afallon, Drefach bedwyr@btopenworld.com	480590
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas, Drefach Joy Lake, Llambled	480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamllwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd e-bost:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann cadeirydd@clonc.co.uk	422349
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd e-bost:	Nia Davies, Maesglas, Drefach ysgrifennydd@clonc.co.uk	480015
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambled	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambled	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Trychineb

Mae'r ddaeargryn a'r sunami a'r perygl o'r atomfeydd yn Siapan, yn gwneud i ni sylweddoli mor fregys yw bywyd. Fe rydd hyn hwb fawr i'r gwrthwynebwyr sydd ddim am godi atomfeydd. Mae hyn wedi dangos, hyd yn oed gyda chamau positif i wneud y rhain yn ddiogel, fod yna ddigwyddiadau cymleth na fedr y gwyddonwyr gorau eu rhagweld. Rhaid i ni fod yn ddiolchgar mae amharu ar olygfeydd y gwna melinau gwynt a dim peryglu bywyd neb.

Golau Coch

Cyfeiriais yn y rhifyn diwethaf o 'Clonc' at y golau coch sydd ar yr hewl allan o Llanybydder. Roedd hyd yn oed y B.B.C wedi cydio yn yr hanesyn. Gwaetha'r modd nid oes dim datblygiad o gwbl yn yr hanes. Mae na ddiffyg cyfathrebu a chytuno yn rhywle, felly diolchwn fod yr hewl ar agor er gwaethaf yr oedi.

Cytuno neu Anghytuno

Mae cystadlaethau'r corau ar S4C yn ddiddorol iawn ond mae na anghytuno yn ein tŷ ni. Yn naturiol fel unigolion ni fyddwn ni byth yn cydfynd bob tro â'r beirniaid. Yr hyn y mae na wrthwynebiad iddo, yw cael dau feirniad answyddogol yn cael traethu barn ar lawr y neuadd. Onid naill ochr yn rhywle y dylasai beirniadaethau fel yma'i rhoi? Yn naturiol mae'n ddiddorol clywed barn eraill. Ond dim mewn safle o flaen beirniaid swyddogol. Dyna fe, wedi cael fy meirniadaeth, does dim rhaid i chi gytuno!!

Profiadau gwych i'n ieuenctid Cefais gyfle'r bore yma i Longyfarch un o famau oedd wedi bod yn cynorthwyo C.Ff. I Llanwenog gyda'u hanner awr adloniant. Un o'r uchafbwyntiau oedd perfformio yn y Theatr yn Abertawe. Roedd paratodau'r Theatr yn wych ac yn brofiad bythgofiadwy iddynt. Pob un o'r cast a'i fwrdd coluro a'i ddrych ei hun. Mae'n dda fod cystadleuaeth fel yma yn digwydd mewn lle mor safonol. Mae pawb yn llongyfarch yr aelodau a'r gweithlu prysur fu'n cynorthwyo i lwyfannu'r perfformiad. Da iawn chi am ddod yn drydydd dros Gymru, a channoliaeth i glybiau'r ddwy sir am waith rhagorol.

Prisiau Petrol

Mewn adroddiad i'r wasg yn ddiweddar fe ddywedwyd fod canran uchel iawn o yrrwyr ceir yn gyrru milltiroedd i achub ceiniog neu ddwy ar y pris, ac wedi llwyddo i losgi mwy o danwydd nac a achubwyd. Mae Llambled yn eithaf lwcus gan fod tair gorsaf yn gyhmharol agos, ond Llanybydder ar y llaw arall yn gorfod mynd yn eithaf pell i lanw bol y cerbyd.

Pasg hapus i ddarlennwyr Clonc. Pob hwyl

Cloncyn.



Llanybydder

Diolch

Dymuna Geraint a Margaret, Llysawel ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu Priodas Arian.

Capel Aberduar



Ken Davies a'i briod Enid o Gaerfyrddin a fu yn agor arwerthiant flynyddol Cymdeithas y Chwiorydd Aberduar yng nghyd a'r gweinidog y Parch Jill Tomos a swyddogion y gymdeithas, Ogwen Evans a Hannilah Court.

Llangybi



Plant Ysgol y Dderi a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Gylch yr Urdd: Dawnsio Gwerin Bl 3 a 4 – cyntaf; Dawnsio Greadigol – ail; Parti Unsain – ail; Sally Rees, Dawnsio; Disgo unigol - 3ydd; Grŵp Dawnsio Disgo - 3ydd.



EBRILL

- 8 "Bingo" Cylch Meithrin Drefach yng Nghefnhafod Gorsgoch am 7.30y.h.
- 9 Noson Cwis yn Neuadd y Pentref Llanfair.
- 10 Rihysal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled 2.30y.p. Salem Caio.
- 10 Taith Tractorau 9.30y.b. tan 2.00y.p ar gae pentref Cwmann gyda Barbeciw i ddilyn. Elw tuag at 'Apêl Elain 2011'.
- 11 Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn ymweld â Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb.
- 11 Bingo Cylch Meithrin Llanllwni yn Nhafarn Talardd i ddechrau am 8.00y.h.
- 13 Cyngerdd i godi arian at afiechyd Alzheimers, i ddechrau am 7.30y.h. yn Ysgol Gynradd Llanybydder.
- 15 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cynal noson Tip-It yn y Talardd, Llanllwni, i ddechrau am 8.00y.h.
- 16 Ffair Grefft a Chynrych y Gwanwyn yn Neuadd y Pentref Llanfair.
- 19 Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. Elw tuag at Ysgol Llanwenog.
- 21 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
- 22 Noson Goffi yn festri Capel Llwynrhydowen i'w ddechrau am 7.30y.h. Elw tuag at y Capel.
- 24 Sgiliau rygbi am 2y.p. yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Erbyn 3:30y.p. bydd syrpreis o S4C (cyflwynwyr cyw yn dod i ganu a dawnio gyda'r plant). rhostio mochyn, castell sboncio a helfa wy pasg a disgo i blant. Yn yr hwyr bydd 2 fand yn canu, 1) "Y sgidie' glas" a 2) "The stiff backs" ar gyfer 18+. Elw tuag at Ward Iorwerth yn ysbyty Bronglais. Croeso i bawb o bob man!
- 25 Taith Tractorau - gadael Cross Roads, Llanllwni am 10.00y.b. Elw tuag at Ward y Plant Ysbyty Glangwili. Manylion: Tom Lewis, Aneeddle, Pencader 01559 384279.
- 26 Gyrfa Chwist yn y Llew Du Llanybydder am 8.00 yh. Elw tuag at elusennau lleol.
- 29 Gwledd o gerdded, teithiau i'r teulu, gweithgareddau i bobl ifanc a sialens gerdded unigryw yn Nhregaron. Gwybodaeth gan Dafydd ar 01974 298150.

MAI

- 2 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol ar 01570 434273.
- 7 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr. Trefnir gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon.
- 7 Eisteddfod Talgarreg. Am ragor o fanylion ar 01545 590383 neu 01545 590295.
- 8 Rihysal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled - Caersalem Parcyrrhos am 2.00 y.p.
- 9 Cyfarfod Blynnyddol Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 13 Noson Goffi yn Festri Aberduar, Llanybydder am 7:00y.h. o dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder.
- 14 Sêl Cist Car a bore Coffi yng Nganolfan Pentref Cwmann gyda Phwyllgor Cylch Meithrin Coedmor.
- 15 Gymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yn Noddfa am 2.30y.p. a 6.00y.h.
- 17 Pwyllgor Blynnyddol CLONC
- 23 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

MEHEFIN

- 4 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr. Trefnir gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon.
- 4 Noson 'Apêl Elain 2011' yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda bwyd, adloniant, ocsiwn a raffl. Rhagor o fanylion i ddod.
- 10 + 11 Barbiciw a Gŵyl Gwrw yn Neuadd y Pentref Llanfair.
- 11 Diwrnod Hwyl gyda Sali Mali yn caeau Glan yr Afon Llanllwni.
- 13 Taith Ddirgel Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 25 Dawns Haf Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7:00y.h. Tocynnau £20 ar gael oddi wrth Ann Herbert 01570 421392 / 07890 060357
- 27 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

GORFFENNAF

- 2 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr. Trefnir gan y Gymdeithas Rien i ac Athrawon.
- 30 Ffet y Pentre yn Neuadd y Pentref Llanfair.



Enillydd Tarian 'Cymwynaswr y Flwyddyn 2011' yn Ysgol Cwrtnewydd eleni oedd Gethin Morgans.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Bu plant a rhieni Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi wrth wneud daffodils allan o bapur a bocsys wyau. Roedd y plant wrth eu bodd ynghanol y paent a'r glud.

Ar y 1af o Fawrth braf oedd gweld 19 o blant yn y cylch yn dathlu diwrnod ein Nawdd Sant. Roedd yn olygfa werth ei weld gyda rhan fwyaf o'r plant wedi eu gwisgo yn y wisg gymreig. Roedd pawb yn mwynhau cael gwisgo'r daffodil oeddent wedi eu gwneud yr wythnos cynt. Cawsom 'pice ar y maen' i de. Diolch i Mary Penrheol a Ceinwen Ceulan am eu gwneud.

Ar yr 8fed o Fawrth buom yn gwneud pancws - dim rhai iawn ond platiau papur wedi eu addurno. Cawsom bancws blasus iawn i de diolch i Ray Beiligwyn.

Gan ei bod yn Ddydd Sul y Mamau cyn hir bu'r plant yn gwneud cardiau prydferth.

Hoffai'r Cylch roi diolch arbennig i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd am eu rhodd hael eleni eto.

Os am brynhawn o gymdeithasu mae croeso mawr i chi ddod i ymuno â ni bob prynhawn ddydd Mawrth (tymor yn unig) am 1.30yp yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01570 434 273.

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ddechrau'r mis wedi dathliadau Dydd Gŵyl Dewi fe fu dosbarth y plant bach ym Mhentre bach yn dathlu Diwrnod Cenedlaethol y llyfr. Tra bu rhaid cau'r ysgol oherwydd yr etholiad fe aeth yr ysgol am daith addysgiadol i'r Gerddi Botaneg. Cafwyd diwrnod llawn hwyl wrth i'r plant astudio gwahanol blanhigion a'r hyn sydd rhaid gwneud i ofalu amdanynt.

Daeth cymdeithas hŷn Llanwenog draw i'r ysgol ar y nawfed i dathlu Dydd Gŵyl Dewi, cafodd y disgyblion gyfle i berfformio darnau'r eisteddfod o flaen aelodau'r

gymdeithas. Roedd y plant (a'r staff) wrth eu boddau wedi'r perfformiad wrth iddynt gael llond bol o fisgedi a chacennau, diolch i'r chwirydd am hynny.

Yng nghystadleuaeth trawsgwlad y cylch bu tîm bechgyn blwyddyn 3 a merched blwyddyn 5 yn llwyddiannus wrth ddod yn drydydd. Bydd nifer o blant yr ysgol yn cystadlu cyn hir yn nhrawsgwlad y Sir a gynhelir yn Llangrannog. Pob lwc iddynt!

Bu nifer fawr iawn o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanbed. Cafwyd crin dipyn o lwyddiant a dyma'r canlyniadau: Unawd Cerdd Dant bl. 2 ac Iau - 1af Lois Jones, 3ydd Nia Morgans; Unawd bl. 2 - 2il Nia Morgans, 3ydd Lois Jones; Llefaru bl. 3 a 4 - 2il Owen Schröder, 3ydd - Elin Davies; Unawd Cerdd Dant bl. 3 a 4 - 2il Elin Davies; Llefaru bl. 5 a 6 - 2il Alpha Jones; Alaw Werin Bl. 6 ac Iau - 3ydd Elin Davies; Unawd Piano bl. 6 ac iau - 1af Alpha Jones; Unawd Pres bl. 6 ac iau - 1af Owen Schröder; Dawnsio Disgo Unigol - 2il Briallt Williams; Grŵp Cerddoriaeth Creadigol - 1af; Parti Unsain - 1af; Parti Llefaru - 1af; Ymgom - 1af; Grŵp Dawnsio Creadigol - 1af.

Bu cystadlu brwd ym Mhafiliwn Pontrhyfendigaid yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cafodd y plant ddiwrnod da iawn a dyma'r canlyniadau: Grŵp Cerddoriaeth Creadigol - 1af; Parti Unsain - 1af; Unawd Cerdd Dant bl. 2 ac iau - 2il Lois Jones; Unawd Pres bl. 6 ac iau - 3ydd Owen Schröder; Unawd Piano bl. 6 ac iau - 3ydd Alpha Jones.

Edrychwn ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ar ddiwedd mis Medi. Diolch yn fawr i'r plant, y staff, aelodau'r gymuned a'r rhieni am eu holl waith yn ystod y cyfnod o hyfforddi a chefnogi ar gyfer yr eisteddfodau.

Daeth theatr Arad Goch draw i'r ysgol i berfformio eu sioe Llyncu Geiriau. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn troedio tiroedd dychymyg y ddrama.

Estynnwn groeso cynnes i chi gyd i ymuno gyda ni yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd ar nos Fawrth, 12fed o Ebrill am 7.00 o'r gloch ar gyfer ein cyngerdd Pigion y Pasg. Cofiwch am ddiwrnod Calan Mai yr ysgol a gynhelir ar Fai'r ail eleni.

Rhifyn mis Mai
Yn y Siopau
Mai 5ed
Erthyglau i law erbyn
Ebrill 21ain
Newyddion i law erbyn
Ebrill 21ain



YMWELIAD ARCHESGOB CAERGAINT Â LLAMBED

Croesawyd ymwelydd arbennig iawn i Brifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llambed nos Sadwrn, 26 Mawrth, pan ddaeth Archesgob Caergaint, y Gwir Barchedig Rowan Williams, i'n plith i draddodi Darlith Goffa Cliff Tucker 2011.



cymeradwyaeth frwd i'r ddarlith, ac estynnwyd cyfle i ofyn cwestiynau niferus ar y diwedd.

Cyflwynodd yr Athro Densil Morgan, Profost Anrhydeddus Campws Llambed, y gyfrol Biblical Art from Wales yn rhodd i'r Archesgob, a thalwyd y diolchiadau gan Lywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones. Diolchwyd i Dr Rhianon Ifans, Ysgol y Gymraeg, gan yr Is-Ganghellor am ei gwaith yn trefnu'r achlysur, a chafwyd derbyniad i ddilyn ar gyfer y gynulleidfa luosog.

Arhosodd yr Archesgob dros nos yn y Brifysgol, a'r bore canlynol pregethodd yn rymus yng ngwasanaeth boreol Capel y Coleg, a bu ef a'r Parchedig Matthew Hill yn gweinyddu'r Cymun i gant a hanner o addolwyr.

Bu'n fraint fawr i'r Coleg ac i'r dref gael croesawu i Llambed ddyn mor gynnes ac mor ddiwyll, ysgolhaig craff, ac arweinydd ysbrydol cariadus. Bydd ei ymweliad yn brofiad i'w drysori ac yn atgof melyn i bawb a fu yno.

Llanwyd Darlithfa Cliff Tucker a darlledwyd y ddarlith i ddwy ystafell seminar gyfagos yn ogystal oherwydd y diddordeb a ddangoswyd yn y ddarlith, gyda lliaws mawr o bobl yn gwranddo arno'n traddodi.

Cyflwynwyd y siaradwr gan yr Is-Ganghellor, Dr Medwin Hughes. Soniodd pa mor falch yr oedd o groesawu Dr Rowan Williams i Gampws Llambed, yn enwedig o gofio pa mor gefnogol y bu'r Archesgob wrth i ddau sefydliad Anglicanaidd gyfuno'n ddiweddar i greu Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Darlith Saesneg a gafwyd gan yr Archesgob, yn dwyn y teitl 'What has Grace got to do with Literature?' Ei thema felly oedd, sut y gellir darganfod Gras mewn barddoniaeth a rhyddiaith.

Dyfynnodd o nifer o destunau, yn Gymraeg, Eidaleg, a Saesneg, gan gynnwys darn o awdl 'Tyddewi' o waith Waldo Williams. Daeth i'r casgliad mai'r diffiniad gorau o Ras yw 'rhyddid sofran Duw i garu lle mae Duw yn dewis caru'. Cafwyd



Ffarmers

Ymddeol

Yn dilyn ymron i chwech mlynedd o wasanaeth fel is-bostfeistr yn Ffarmers, mae Peter Jukes bellach wedi rhoi'r gorau i'r swydd. Diolchwn iddo fel cymuned am ei barodrwydd i ymgymeryd a'r swydd ar adeg pan oedd neb yn awyddus i wneud y gwaith. Mae'r gwasanaeth yn bwysig i'r gymdogaeth gyfan gan mae hon, erbyn hyn, yw'r unig swyddfa bost rhwng Llanbedr Pont Steffan a Llanymddyfri.



Fel arwydd o werthfawrogiad, 'roedd Jayne a Diane yn Y Caffi wedi trefnu bwffe i nodi yr achlysur, a daeth nifer o ffyddloniaid y Swyddfa Bost ynghyd i fwynhau'r bwyd, a diolch i Peter am ei wasanaeth.

Yn ffodus, mae Darrell Garwood, un o drigolion y pentref, wedi cymeryd at y gwaith, a dymunwn yn dda iddo gyda'r swydd a gychwynnodd ar yr 16eg o Fawrth. Yr oriau agor fydd o 9.00 hyd 12.30 ar ddydd Mawrth, Mercher a Iau.

Neuadd Bro Fana

Cynhaliwyd Noson Rasus Parlwr lwyddiannus dros ben yn Y Drovers rai wythnosau yn ôl i godi arian i'r Neuadd. 'Roedd hwn yn ddigwyddiad newydd yn y gymdogaeth, a daeth tyrfa dda ynghyd i fwynhau'r rasio, a dathlu ennill ambell ras. Gwyn Davies, Llanddewi Brefi oedd yn llywio'r

chwarae, a chafwyd hwyl yn 'gwerthu' ceffylau ymlaen llaw i'r jocis eiddgar – ac 'roedd yna enwau digon difyr ar nifer o'r ceffylau! Cafwyd noddwyr ar gyfer yr holl rاسus, a llywyddion y noson oedd Alun a Lowri Lewis, Nantyrast. Diolch i bawb a gefnogodd y noson, ac i Ben, Kerry a'r teulu am gael defnyddio'r Drovers ar y noson.

Cynhaliwyd Bwffe a Chyngerdd i ddathlu Gwyl Ddewi ar y 4ydd o Fawrth, a chafwyd cefnogaeth dda a llawer o fwynhad yn gwranddo ar dalentau lleol. Diolch i Glesni Evans, Glasdir; Adrian a Wendy Evans, Penbanc; Sara a Carys Evans, Yr Hen Swyddfa Bost; Deian Thomas, Cae'r dderwen; ynghyd a Morina Lloyd, Marina Thomas a Ceinwen Jones am ein diddanu. Diolch hefyd i'r merched a fu wrthi yn paratoi'r bwyd.

Byddwn yn croesawi Cwmni Drama Cudyll Coch i'r Neuadd ar yr 16eg o Ebrill i berfformio dwy gomedi – 'Y Botel Liwcosêd' gan Peter Hughes Griffiths a 'Dau Dad' gan Edgar Jones. Llywyddion y noson fydd Glyn a Morina Lloyd, Ogmored by sea (gynt o Tylluan, Ffaldybrenin), ac mi fydd y noson yn cychwyn am 7.30. Cysylltwch ag aelodau pwyllgor y Neuadd am docynnau. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

Diolch

Dymuna Mrs Mair Jones, Heol Timothy, ddiolch o galon i bawb am eu cardiau, galwadau ffôn a phob caredigrydd a dderbyniodd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac wedi dychwelyd adref.

Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Mrs Jane Jones, Wernlwyd ar ddathlu ei phenblwydd yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed ar ddechrau mis Mawrth. Mae'n dda ei gweld adref unwaith eto yn dilyn cyfnod byr yn yr ysbyty, ac estynnwn ein dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol. Dymuna Mrs Jones ddiolch am y llu galwadau, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth un o drigolion yr ardal, sef William Hughes, Brynhirfaen, Cellan ar ddechrau mis Chwefror. 'Roedd Wil yn adnabyddus fel stocmon o fry, ac wedi ffermio yn Brynhirfaen ar hyd ei oes. Estynnwn ein cydymdeimlad i Eirwen ei chwaer, a'r teulu a'r cysylltiadau oll yn ei profedigaeth. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Capel Ffaldybrenin ar ddydd Llun, y 7fed o Chwefror.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth yr aelodau ynghyd i ysgol Gynradd Cwrtnewydd ar gyfer cyfarfod mis Mawrth, a chroesawyd pawb gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd.

Braf oedd gweld Nanna Jones gyda ni yn y cyfarfod, a phleser hefyd oedd cael croesawi Doreen Daniels yn aelod newydd. Dymunwyd yn dda i Rod Davies, Croesmaen, wedi ei lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.

Ymunodd plant a staff yr ysgol â ni, a'r Prifathro, Mr. Alwyn Ward yn arwain y gweithgareddau, bu'r plant yn cyflwyno adloniant i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd amrywiaeth dda o berfformiadau; partion canu, llefaru, eitemau offerynnol a dawns disgo; pob un i'w weld yn mwynhau, ac yn rhoi llawer o bleser i aelodau'r gymdeithas. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt, yn blant ac yn staff gweithgar, gan Irene Jones, - am rhoi o'u hamser i'n croesawu a'n diddanu. Diolch unwaith eto iddynt.

Mwynhawyd paned a phice bach wedi eu paratoi gan wragedd Cwrtnewydd, a diolchwyd iddynt hwythau hefyd gan Irene Jones.

Mae tymor cyfarfodydd y Gaeaf wedi dod i ben, ac ym mis Ebrill bydd triplau'r Haf yn dechrau. Trip i Bontypŵl a Chwmbrân fydd hi ar Ebrill 13eg. Y bws i gychwyn o'r Garej am 8 o'r gloch. Enwau i Yvonne 480590.

Eglwys Santes Gwenog

Ymunodd nifer dda o wragedd o'r pum capel a'r ddwy eglwys i wasanaeth arbennig 'Cwrdd Gweddi Merched y Byd' gynhaliwyd yma ar y 5ed o Fawrth. Eleni, canolbwyntiwyd ar wragedd 'Chile', a'r thema oedd 'Sawl torth sydd gennych chi'. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan ein ficer y Parch Susie Bale. Gwnaed casgliad o £53. Yn ystod canu'r emyn olaf dosbarthwyd sgwariau o fara i'r gynulleidfâ i gofio am yr anhawsterau mae'r gwragedd yma yn 'Chile' yn eu gwynebu'n ddyddiol. Mrs Pauline Roberts Jones oedd yr organyddes.

Llongyfarchiadau i C.Ff.I. Llanwenog ar gyrraedd y brig yng nghystadleuaeth Ceredigion o 'Hanner awr Adloniant'. Y thema ddewiswyd oedd 'a'r Pumed Dydd'. Ysgrifennwyd y sgript drawiadol iawn gan Huw Evans, Alltgoch, a'r cynhyrchydd oedd Ms Lynda Jones. Cafwyd gwledd i'r llygaid wrth weld yr aelodau i gyd wedi'u gwisgo fel adar. Dyfarnwyd hwy yn drydydd dros Gymru gyfan.

Llongyfarchiadau hefyd i Sioned Davies, Y Cartws, Prengwyn a dderbyniodd yr anrhydedd o'i dethol yn Aelod Iau orau C.Ff.I. y Sir; bu hithau yn cynrychioli'r Sir yn y gystadleuaeth dwy Gymru. Da iawn chi i gyd.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylus

gan ddymuno iddynt adferiad llwyr a buan. Bu'r Esgob, y Gwir Barchedig, Wyn Evans yn ymweld â'r ysgol yn ddiweddar a chafodd ddiwrnod hapus iawn yn sgwrsio gyda'r plant.

Clwb 100 Chwefror – 1. James Fillery; 2. Charlotte Mellor; 3. Jeff a Carol Thomas.

Ysgol Llanwenog

Dathlwyd dydd ein Nawddsant drwy gynnal Eisteddfod Ysgol ar Fawrth y Cyntaf, yn y Llew Du yn Llanybydder eleni eto. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy yng nghaledr yr Ysgol. Diolch o galon i feirniaid y dydd sef, Mrs Kate Jones a Mrs Ray Jones, y naill o Sarnau a'r llall o Blwmp. Cafwyd diwrnod o gystadlu brwd mewn amrywiaeth o eitemau gyda'r uchafbwynt yn dod wrth gadeirio Ffion Evans am ysgrifennu'r stori orau. Diolch i'r Cyng. Haydn Richards am fod yn Llywydd y dydd ac i Carys Evans am gyfeilio. Braf oedd cael cyhoeddi ar ddiwedd y dydd mai Gwenog oedd y tim buddugol. Diolch yn fawr iawn i'r mamau a fu'n ynghlwm wrth weini'r lluniaeth hyfryd a gafwyd yn ystod y dydd ac i bawb arall a fu'n ynghlwm gyda rhediad y dydd. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at fedru ei gynnal eto y flwyddyn nesaf.

Yn dilyn ein heisteddfod ysgol, braf oedd cael croesawu nifer o fudiadau o'n cymuned i'r Ysgol am noson o gawl a chân a chafodd disgyblion hŷn yr ysgol y cyfle i rannu ambell eitem o'r eisteddfod gyda hwy. Dyma ein ffordd ni o ddweud diolch am yr holl gymorth mae'r cymdeithasau yn rhoi i'r Ysgol yn ddi-ffael yn ystod y flwyddyn.

Eleni, roedd y gwaith cartref celf yn cyfateb â thestun eisteddfod yr Urdd, sef Y Fro, ac enillodd gwaith celf Chloe Marie Jones y wobr gyntaf dros y Sir. Dymuniadau gorau iddi gogyfer â'r Eisteddfod Genedlaethol.

Ar ddydd Llun y seithfed o Fawrth gwnaethom ddathlu Diwrnod y Llyfr wrth i holl blant yr ysgol wisgo fel eu hoff gymeriad allan o nofel / llyfr. Hefyd, aeth y Babanod a Chylch Meithrin Gwenog i Bentre Bach i gwrdd ag amryw o'r cymeriadau lliwgar, fel Sali Mali a Bili Bom Bom. Bu'r adran Iau yn dathlu wrth beintio lluniau, cynnal cwis a chwarae "Pwy ydy Pwy?" a'r cyfan yn seiliedig ar awduron enwog a'u gwaith.

Erbyn hyn mae Clwb Drama wedi sefydlu yn yr ysgol ar gyfer plant y fro. Maent yn cyfarfod bob nos Lun ac wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer perfformiad yn ystod Tymor yr Haf yn Theatr Felinfach.

Y tymor hwn, cynhelir gweithdai rhifedd yn yr ysgol i rieni sydd â ddisgyblion o flwyddyn 2 i fyny. Maent yn cwrdd â Mrs Karen



Ffion Caryl Evans yn ennill y gadair am stori fer yn Eisteddfod Gwyl Ddewi Ysgol Llanwenog.

Barnsley er mwyn trafod a dysgu am ddulliau i helpu plant gyda'u gwaith rhifedd.

Ar ddydd Llun yr 21ain o Fawrth, daeth ymwelydd pwysig iawn i'r ysgol sef y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tyddewi. Bu'n trafod hanes Dewi Sant gyda'r disgyblion, yn dangos ei wisg ac yn trafod y broses o gonffirmio. Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn ei gwmni gyda amrywiol ddisgyblion yn arwain drwy ddarllen stori o'r Beibl, darllen eu gweddïau personol a chwarae offerynnau cerdd. I gloi'r ymweliad cyflwynodd yr Esgob Feibl Cymraeg yr un i bob disgybl a oedd yn roddedig gan "Bible Explorers". Felly edrychwn ymlaen at yr 28ain o Fehefin pan bydd nifer o ddisgyblion yn cael eu gonffirmio mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gwenog.

Bu nifer o deuluoedd a ffrindiau'r ysgol yn brysur yn casglu nwyddau i'w hailgylchu yn ystod y tymor. Diben hyn oedd er mwyn medru anfon y bagiau o ddillad allan i wledydd anghenus Ewrop drwy law'r cwmni "Bags2Schools". Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Cyfrannwyd swm teilwng iawn o arian i'r ysgol o ganlyniad i'r nifer helaeth o fagiâu a gasglwyd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth trawsgwlad y Cylch yn ddiweddar a chafodd nifer o ddisgyblion yr ysgol lwyddiant yno. Pob lwc i Josh Hargreaves, Roseana Roach, Michael Roach, Gwen Thomas, Kurtis Davies a Delyth Ann Jones a fydd yn cynrychioli'r Cylch yng Nghystadleuaeth y Sir yn Llangrannog ar yr 8fed o Ebrill.

Cylch Meithrin Drefach.

Bu rhai o'r plant, rhieni ac athrawon i ddathlu Diwrnod y Llyfr ym 'Mhentre Bach' ar ddechrau'r mis. Cafwyd bore hyfryd yng nghwmni'r holl gymeriadau. Cafwyd egwyl bleserus yng Nghaffi Sali



Sioned Davies, CFfI Llanwenog a gafodd ei dewis yn Aelod Iau y Flwyddyn CFfI Ceredigion 2011-2012.

Mali cyn dychwelyd adref. Y thema eleni yw ail-gylchu ac 'roedd lawer o'r plant wedi'u gwisgo mewn gwisg ffansi.

Diolch i 'Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd' am ei rhodd hael i'r Cylch unwaith yn rhagor.

Cofiwch am ein noson 'Bingo' yn 'Cefn Hafod, Gorsgoch, Nos Wener Ebrill yr 8fed am 7.30yh.

Clwb Ffermwyr Ifanc

Ar ôl wythnos o gystadlu brwd yng nghystadleuaeth yr hanner awr adloniant, daeth Clwb Llanwenog i'r brig gyda perfformiad o'r 'Pumed Dydd' a ysgrifennwyd gan Huw Evans. Gwobrwyd y clwb am y perfformiad technegol gorau ac hefyd enillodd Linda Jones y cynhyrchiad gorau. Ar y nos Lun canlynol cafwyd wledd o gyngerdd yn Theatr Felinfach gyda'r tri clwb a daeth i'r brig. Ar ddiwedd y noson cyhoeddwyd enillwyr aelod hyn ac iau. Braf oedd gweld Sioned Davies yn ennill aelod iau Ceredigion am y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i ti Sioned. Rhoddwyd clod uchel i aelod iau arall o Lanwenog sef Carwyn Davies.

Cynhaliwyd cyngerdd yn Ysgol Llanybydder i ddathlu ein llwyddiant. Ymunodd Clwb Mydroilyn gyda ni i ddiddanu'r gynulleidfâ. Cafodd pawb gyfle i gael paned a 'welsh cakes'. Diolch yn fawr i Rhian Jones o Fanc Barclays am ein noddi £1 am £1.

Cafodd Enfys Hatcher ei dewis fel morwyn am y flwyddyn ganlynol. Llongyfarchiadau mawr i ti Enfys ac edrychwn ymlaen i dy weld ar lwyfan y rali ym Mhontsian ar ddiwedd mis Mai.

Cafwyd noson llawn hwyl a sbri yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Ymunodd C.Ff.I Llanllwni gyda ni am Eisteddfod Dafarn a chawl. Diolch yn fawr i Eiddwen a Geraint am drefnu cawl i bawb.

Ar ddydd Sadwrn aeth llond bws o aelodau a chefnogwyr i'r Grand

Drefach a Llanwenog

yn Abertawe ar gyfer Gwledd o Adloniant Cymru. Profiad gwyh i 38 o aelodau'r clwb wrth iddynt berfformio'r hanner awr adloniant ar lwyfan y Grand gyda S4C yn ffilmio'r perfformiad ar gyfer rhaglen deledu. Ar ddiwedd y penwythnos enillod y clwb y drydedd wobwr. Hoffai holl aelodau'r cast ddiolch o galon i bawb a wnaeth eu dysgu a'u helpu mewn unrhyw ffordd.

Bwrlwm eto yng nghwmni C.F.F.I Mydroilyn wrth i Erwyd Howells ein dysgu i ddawnsio twmpath. Rwy'n siwr fod pawb wedi mwynhau a dysgu rhai symudiad newydd.

Ar benwythnos olaf mis Mawrth cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru ar faes y sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Cafodd nifer o'r aelodau lwyddiant. Enillodd Elin Jones siaradwraig dan 21 yn y siarad cyhoeddus cymraeg tra daeth ei chefnither Enfys Hatcher yn ail a chipio Gethin Hatcher yr ail wobwr am gadeirydd. Daeth tîm dan 21 Ceredigion yn gyntaf, gyda Elin, Enfys a Gethin yn y tîm.

Bu Sioned Davies yn cadeirio i dîm 16 ac iau Ceredigion yn yr un gystadleuaeth a chipiodd hi'r dryddedd wobwr. Meir Davies oedd y diolchyd i'r tîm ac hefyd cipiodd hithau dryddedd wobwr. Daeth tîm dan 26 cymraeg yn 2il a roedd Cerys Jones yn aelod o tîm hwn. Da iawn i chi gyd!

Cipiodd Ceredigion yr ail wobwr am Siarad Cyhoeddus Cymraeg Cymru.

Cafwyd noson i ymweld â Gwili Jones, Llanbed. Roedd y bois i gyd wrth eu boddau yng nghanol y tractors! Diolch i gwmni Gwili Jones am y croeso cynnes.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Steffan Davies, Bryndolau, Brynteg a Lowri Evans, Esgairnewydd, Brongest ar ei dyweddiad yn ystod y mis. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

Croeso

Croeso cynnes i deiliaid newydd i Benbryn ac i Ochr-y-Ffrwd. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.



Y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tyddewi yn cyflwyno Beibl Cymraeg yr un i bob disgybl a oedd yn roddedig gan "Bible Explorers".



Disgyblion hŷn Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog yn llwytho'r fân gyda chymorth y dreifwr Peter Wright â sachau'n llawn dillad ar gyfer eu hailgylchu yng ngwledydd tlawd gorllewin Ewrop o dan y cynllun "Bags 2 School".



Cymeriadau lliwgar Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog ar Ddiwrnod Y Llyfr.

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Meigrin
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llanwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

HYSBYSEBU YN CLONC

*"Mae mwy a mwy yn gweld
gwerth mewn hysbysebu yn y
Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£30.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu

ysgrifennydd@clonc.co.uk

TRIN GWALLT SYMUDOL

Hoffech cael eich
gwallt wedi ei dorri,
lliwio, permio,
Blow-dry neu 'set' yn
eich cartref?

Ffoniwch RHIAN
ar 01570 480410
neu 07971 853648

Taith Tractorau

Dydd Sul 10fed Ebrill 2011
am 10yb. I ddechrau a gorffen
yng Nghae Pentref Cwmann



BBQ i ddilyn am 2yp
er mwyn cynorthwyo Apêl Elain

Felly dewch draw i fwynhau'r prynhawn a
chefnogi'r achosion hyn. Gwethfawrogir eich
cymorth yn fawr iawn.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am dri teulu a chysylltiadau agos a phentref Llanfair sydd wedi colli annwyliaid yn ddiweddar sef Beti Williams, Tŷ Capel Shiloh gynt, chwaer annwyl teulu y Llwyn, Heol Llanfair. Dechreuodd Beti a Dai ei gŵr, ei bywyd priodasol ym mhentref Llanfair. Bu farw Valerie Vaughan o Bencader, mam annwyl Gill Vaughan Evans, Y Ddol, Heol Llanfair ar ôl bod yn dioddef ers tipyn.

Ar ôl bod mewn iechyd gwael ers rhai blynnyddoedd bu farw Elonwy, gwraig John Gregson. Cafodd John ei eni a'i fagu yng Nghlydogau Cottage. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys a'r teuluoedd yma oll.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon am wneud mor dda ym Mhencampwriaeth rhedeg y Ddinas Unedig yn Birmingham yn ddiweddar. Da iawn ti. Dalia ati. Mae dyfodol disglair o dy flaen yn y byd rhedeg.

Llongyfarchiadau hefyd i Ceri Cranfield, Bronhaul am ennill medal arian mewn Cystadleuaeth Her Mathateg dros Brydain Fawr pan yn cystadlu gyda tim o Ysgol Gyfun Llanbed. Da iawn Ceri.

Menter Newydd

Dechreuwyd menter newydd o gynnal sel cyst modur, crefftau, a nwyddau o dan do yn y neuadd ar ddydd Sadwrn Mawrth 5ed. Bu yn ddechreuad llwyddiannus gyda llawer o bobol lleol wedi dod i gefnogi y fenter. Roedd yn bleser cael y cyfle i gymdeithasu hefyd dros paned o de a chacennau cartref. Pob lwc iddynt. Bydd y fenter yma yn cael ei gynnal y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis. Cofiwch amdano a dewch yn llu i gefnogi.

Sefydliad y Merched

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn y neuadd drwy fwynhau cawl blasus Elinor a phwinau arbennig diri, ac yna cymdeithasu a'n gilydd drwy chwarae Chwist. Daeth llawer o

ffrindiau ynghyd gyda deuddeg bwrdd a cafwyd noswaith hwylus dros ben. Yr enillwyr oedd Katie James, Pandi, yn gyntaf ac Eleri Davies Pentre yn ail ar ran y menywod, a Ieuan Thomas yn gyntaf a Frank Carter Forest Road, Llanbed yn ail ar ran y dynion. Yr enillydd o dan 16 oedd Rebecca Miller, Cysgod y Coed. Enillwyd y bwbi gan June Adams, Plas yr Allt ac Ian Evans, Esgair Man. Enillwyr y rafflau oedd David James, Pandi, June Adams ac Odwyn Davies Olmarch Fawr. Diolch i Gwyneth Jones Nouadd, am fod yn alwr y noson ac i Elinor Evans Nan-y-medd am baratoi y cawl ffein, i bawb a wnaeth baratoi y pwinau ac unrhyw un arall a wnaeth helpu i wneud noson dda.

Dawnsio Jeifio

Yn dilyn llwyddiant y noson jeifio gyda Sefydliad y Merched mis Mawrth, mae'r dosbarthiadau wedi dechrau gyda llwyddiant mawr a rhagor o aelodau. Cafwyd hwyl arbennig gan ddiolch yn fawr i Kathy a Dave o Langybi sydd yn rhoi yr hyfforddiant

Dymuniadau da

Dymunwn lwyddiant mawr ac amser da i Timothy Evans Llanfair Fawr a'i batner Sarah Thomas sydd yn paratoi i symud allan i Bangkok am ddwy flynedd i ddysgu. Llongyfarchiadau cynnes iawn i Dilys Evans Nant-y-medd ar gyrraedd 40 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu i gyd.

Bowlio Dan Do

Cafwyd noson hwylus dros ben yng nghlwb bowlio Llanbed nos Sadwrn Mawrth 19eg pan ddaeth rhyw ddeunaw ynghyd i fowlio. Creuwyd diddordeb yn y gem ar ôl dechrau bowlio ar fat byr yn neuadd y pentref bob nos Sadwrn. Trefnwyd y noson yn Llanbed gan Dan Griffiths a trefnwyd y timau gan Al Heron. Diolch i'r ddau am yr holl drefniadau gan obeithio y cawn y cyfle i wneud hyn eto yn fuan gan i bawb fwynhau mas draw.

Cwmann

Ysgol Carreg Hirfaen

Ar ddydd Mawrth, Mawrth y 1af cawson ein Eisteddfod ysgol yn Neuadd Bro-fanna, Ffarmers. Daeth llawer iawn o bobol i'n gwyllo. Teifi a Cothi ydy'r timoedd. Mi wnaeth holl blant yr ysgol gystadlu mewn gwahanol cystadleuthau.

Y cystadleuthau oedd: Canu neu adrodd unigol, Llawysgrifen, Stori Gymraeg - Ca1 a 2, Stori Saesneg - Ca2, Celf - Ca1 a 2, Côr - y timoedd, Offerynol a'r gadaur. Enillodd Anaite Faulkner y gadair am y Stori Saesneg - enillodd Daniel Harrison y gadair am y Stori Gymraeg - enillodd Undeg y gadair am y Stori Gymraeg i'r Babanod. Lisa Elan enillodd y tlws am y nifer mwyaf o bwyntiau i ddisgyblion C.A. 2 a Mali Jones enillodd y mwyaf o bwyntiau i blant C.A.1, ac mae'r ddwy yn nhy Teifi. Teifi enillodd cystadleuaeth y Côr a Teifi hefyd enillodd tlws yr Eisteddfod ar ddiwedd y dydd!!

Roedd yn ddiwrnod hwylus i bob un. Da iawn i bawb am gystadlu mor dda! Gan Lisa Elan Evans, 9 oed.

Profwyd llwyddiant eto yn Eisteddfod Urdd Cylch Llambled efo nifer o'n disgyblion yn cymryd rhan yn unigol ac fel rhan o grŵp. Daeth Sophia Barker i'r brig yn y gystadleuaeth llefaru i ddysgwyr a Lisa Elan yn drydydd yn y gystadleuaeth ganu unigol i blant tan 9 oed.

Enillodd y Grŵp Llefaru yr ail wobr tra bo'r Côr a'r Parti Unsain wedi dod i'r brig ac yn edrych ymlaen yn eiddgar i gynrychioli'r Cylch yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn Mawrth y 26ain. Da iawn un ac oll.

Aeth dosbarth 3 a 4 i Eglwys Sant Iago, Cwmann i gwrdd a'r ficer a dysgu am yr Eglwys. Enw y ficer oedd Will Strange a gwelon ni fowlen casgliad sy'n cael ei defnyddio i gasglu arian i bobl tlawd y Byd. Gwelon ni organ fawr sy'n helpu'r gynulleidfa i ganu emynau pert. Roedd baner Sant Iago hefyd yn yr Eglwys.

Roedd llun o Dduw ar y faner ac roedd y faner yn fawr iawn, iawn. Roedd y ffenestri yn bert iawn ac yn lliwgar ac yn hela'r Eglwys i edrych yn hyfryd iawn. Roedd y gloch yn canu amser roedd gwasanaeth yn dechrau ar fore dydd Sul. Diolch i'r ficer am ei amser. Gan Shannon ac Elin, blwyddyn 3 a 4

Bu tim pel rwyd yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar wrth ennill rownd derfynol Cystadleuaeth Pel Rwyd y Cylch. Ar lefel Sirol gwnaeth y tim o ferched blynyddoedd 5 a 6 yn rhagorol unwaith eto gan ennill nifer o gemau.

Bu tim rygbi'r ysgol hefyd yn arbennig o llwyddiannus yng nghystadleuaeth y Sir yn ddiweddar gan gyrraedd y gem gyn-derfynol



Enillydd yr Unawd dan 9 oed yn Eisteddfod Swyddfynnon oedd Sara Elan Jones, Araul.

a'r pedwar uchaf. Yn y gemau grŵp, enillwyd pob gem ond un gan blant Carreg Hirfaen a cholli o drwch blewyn wnaeth y tim yn y gem gyn-derfynol. Yn y gem ar gyfer ennill y trydydd safle chwaraeodd Carreg Hirfaen ei gem orau o'r dydd gan ennill yn gyfforddus o s cais I un yn erbyn Ysgol Iau Abewrteifi. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Mae nifer fawr o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol wedi bod yn rhedeg Trawsgwlad yn ddiweddar gan brofi llwyddiant mawr ym mhencampwriaeth y Cylch. Daeth nifer o ddisgyblion i'r brig gan ennill eu rاس - Llywelyn James, Beci Harrison a Daniel Thomas, tra bo'r canlynol wedi gorffen yn wych yn y tri cyntaf - Beca Ann, Beca Mai, Naiomi Davies a Sara Jones. Hefyd yn gorffen yn y pump cyntaf oedd Daniel Jones, Amy Richards, Tomos Jones a Sophia Barker. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd. Mae'r tim yn mynd ymlaen yn awr i gystadlu ar lefel Sirol yn Llangrannog ac hefyd ym Mhencampwriaeth Dyfed yng Nghaerfyrddin.

C.Ff.I Cwmann

Ar nos Fercher y 23ain o Chwefror fe deithiodd aleodau C.Ff. I Cwmann lawr i Neuadd San Pedr yng Nghaerfyrddin i gystadlu yng nghystadleuaeth yr Hanner Awr Adloniant. Roedd y tensiwn yn uchel a phawb yn byrlymu i gamu ar y llwyfan. Wedi'r cystadlu roedd rhaid aros am y canlyniad. Fedraf gadarnhau fod Clwb Cwmann wedi dod yn 5ed yn y gystadleuaeth ac fe gafodd Sian Elin Williams, Tomos Jones a Carwyn Lewis ganmoliaeth uchel gan y beirniad. Diolch yn fawr iawn i bawb fuodd o gymorth i ni wrth baratoi am y gystadleuaeth yn enwedig Mrs Llinos Jones, Mr a Mrs Dylan a Carys Lewis.

Ar y 4ydd o Fawrth daeth nifer o aelodau, pwyllgor a ffrindiau ynghyd i fwynhau cawl yn y Castle Green yn



Cwmann

Llanbed. Cafwyd noson hwylus gyda bwyd blasus iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cafwyd noson hwylus o fowlio deg lawr yn Canaston, Sir Benfro. Cyfle i ymlacio a mwynhau. Aeth yr aelodau hŷn a'r aelodau iau gyda'r marciau uchaf ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth y Sir ar y 9fed o Fawrth. Daeth y tîm hŷn sef Louise Jones, Carwyn Lewis, Aled Bowen a Sioned Russell i'r brig gydag Aled Bowen yn cael sgôr ucha'r noson. Gwnaeth y tîm iau sef Lowri Jones, Sara Evans, Ceri Jenkins a Siân Elin Williams gystadlu'n frwd hefyd.

Ar y nos Wener ganlynol cafwyd gwahoddiad i ymuno â Chlwb Llangeitho i ail berfformio'r Hanner Awr. Roedd hi'n brofiad gwyach cael ymuno â chlwb arall i berfformio ac yn arbennig clwb o sir gyfagos.

Ar nos Wener y 11eg o Fawrth cafwyd cyfarfod i drefnu ein rhaglen ar gyfer y diwrnod gwaith maes a'r rali, ac mae'n argoeli i fod yn ddiwrnod prysur iawn gyda rhaglen lawn.

Clwb 125 Mis Mawrth

1. Mrs. Eva Brown, Cae Ram, Cwmann, 37, 2. Mrs. Andrea Lewis, Llety Gwyn, Llangybi, 148, 3. Mrs. Veronica James, Caersalem, Cwmann, 127, 4. Mr. Huw Davies, Verlands, Cwmann, 5. Mrs. Helen Davies, Tan-yr-Esgair, Cwmann, 38, 6. Mr. Julian Evans, Hat Mark Lane, 113, 7. Mr. Dafydd Lloyd, Brynywawr, Pumpsaint, 96, 8. Mr. Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 111, 9. Miss. Sonia Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 139, 10. Mrs E. G. Lloyd, 14 Heol Hathren, Cwmann, 43.

Clwb 250 Mis Mawrth

1. 48, Amanda Evans, Anwylfan, Llanllwni, 2. 96, Mr & Mrs. N Evans, Hafdre, Cwmann, 3. 70, Eric Harries, Aberystwyth, 4. 205, Angharad a Gareth, G&M Buses, Llambled, 5. 80, Christina & Shaun Davies, Pleasant View, Llanfair Road, 6. 41, Mr. C Price, Langwm, Bryn Rd, Llambled, 7. 101, Mair Jones, Panteg, Pentrebach, 8. 129, Aled Evans, Hafod y Gan, Cae Ram, Cwmann, 9. 104, Seren Ling, 18 Cwrt Dulais, Llambled, 10. Danny Davies, Brynteifi, Cwmann.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad a David Morgan a'r teulu, Haulfryn a'r farwolaeth ei chwaer Gwen Wilson yn Llundain.

Clwb Ffermwyr Ifanc


Cafodd Gethin Morgan, Penparc, Cae Ram, ei ddewis yn un o dri actor gorau yn yr hanner awr adloniant yn Felinfach. Da iawn, dal ati.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Elan



Y criw a fu'n cerdded 4 milltir 'Walk for Life 2011' yng Nghwmman er lles Sefydliad Aren Cymru ar y 27ain Mawrth o dan arweiniad Phillip a Cerys Lodwick.



Y Parch William Strange ficer Eglwys Sant Iago, Cwmman yn cyflwyno siec am £280.00 i Mrs Pat Jones ar ran St James High School, Lesotho, sef rhan o elw cyngerdd Nadolig blynyddol yr eglwys.

Jones, Araul, ar gipio pedwar cyntaf yn yr eisteddfod gylch. Roedd yn dipyn o gamp yn wir a phob dymuniad da yn eisteddfod Sir ym Mhonrthdyfendigaid ar 26 o Fawrth. Mae Elan wedi ennill llawer o dariannau a chwpannau mewn gwahanol Eisteddfodau.

Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad buan Mr & Mrs. Cerwyn Davies, Brodawl yn dilyn damwain car a gobeithio fod Mrs. Davies yn parhau i wella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Sefydliad y Merched Coedmor

Bu Sefydliad y Merched Coedmor yn dathlu Gŵyl eu Nawdd Sant yn Y Sosban Fach ar Fawrth 7fed. Croesawodd y llywydd Noleen Davies Celeste Filipponi, merch ifanc o'r Gaiman Patagonia sydd nawr yn arsylwi yn Ysgol Ffynnonbedr am fis, ar aelodau i gyd. Offrymwyd gras gan yr ysgrifennydd Gwyneth Morgan, cyn i bawb mwynhau pryd blasus o gawl a phwdin reis.

Cyflwynodd y llywydd y gŵr gwadd sef Dafydd Aeron o Felinfach. Ei destun oedd 'Galwaf ar dy enw, eiddo fi ydwyf' Yn ei arait bu yn olrhain ei daith i wireddu ei uchelgais i fod yn offeiriad yn

Eglwys Cymru. Dangosodd i'r aelodau mantell hardd roedd wedi cynllunio ei hunan. Gwisgai hon ar ôl iddo gael ei ordeinio'n ddiagon. Bydd yn cael ei ordeinio yn offeiriad ym mis Mehefin. Diolchwyd iddo am sgwrs ddiddorol iawn gan Elma Phillips. Diolchodd hefyd i staff y Sosban Fach am baratoi'r bwyd ac i'r swyddogion am drefnu'r noson.

Cydymdeimlodd Noleen gyda Helena Gregson sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar. Cynhelir cyfarfod Gwanwyn o Grŵp Teifi yn Neuadd Pentre-cwrt ar Fawrth 18fed.

Bydd y cyfarfod nesa ar nos Lun Ebrill 4ydd. Yr aelodau i gyd i gwrdd tu allan i Uned 25, sef safle siop organic, yn y Parc Diwydiannol am 7.15.

Codi Arian

Mae Nerys Douch yn falch iawn o helpu elusen Canser y Fron, Breakthrough Breast Cancer, drwy redeg Marathon Llundain 2011. Ar Ebrill 17eg bydd yn ymuno â thros hanner miliwn o bobl er mwyn cystadlu a gorffen y cwrs 26.2 milltir. Os hoffech chi gefnogi Nerys drwy ei noddi i helpu'r elusen hon, ewch i'r wefan <http://uk.virginmoneygiving.com/NerysDouch> neu ffoniwch 01558 650363. Diolch.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmman
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumpsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhrefaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Brendeifi

Gwireddwyd y targed o ail-agor y festri ar ôl difrod y tywydd gaeafol ar fore Sul olaf Mis Chwefror ac mewn pryd i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Daeth nifer o aelodau ynghyd a braf oedd gweld y plant lleiaf yn hardd iawn yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog, y Parch Goronwy Evans ac yn ystod y gwasanaeth cydymdeimlodd yn ddiffuant iawn a David ag Eileen Morgan a'r teulu ar golli chwaer annwyl iawn sef Mrs Gwenda Wilson a oedd wedi ymgartrefi yn Llundain ers blynyddoedd maith gyda'i phriod, Dave. Claddwyd ei llwch ym medd y teulu ar Fawrth y 5ed mewn gwasanaeth preifat cofiadwy yng ngofal ein Gweinidog.

Cydymdeimlwyd yr un mor ddiffuant hefyd a theulu y diweddar annwyl Mrs Eilonwy Gregson sef John, ei phriod, Malcolm, Sharon a'u teuluoedd. Diodddedfodd gystudd hir a chreulon ond roedd bob amser ar ei gwên ac yn barchus ac annwyl gan bawb a'i hadnabu.

Yn ystod y gwasanaeth cafodd un aelod dipyn o syrpreis sef, Mr Arthur Roderick, pan gyflwynwyd iddo lun o gapel Brondeifi o waith yr artist, Aerwen Griffiths, ynghyd ag englyn o waith y Prifardd Idris Reynolds, fel cydnabyddiaeth iddo am ei wasanaeth fel diacon ym Mrondeifi ers 54 mlynedd.

Roedd y dyddiad yma hefyd wedi ei benodi fel Sul i gefnogi Apêl Elain Gwawr a darllenodd ei Mamgu, Mrs June James, lythyr oddiwrth Gareth a Bridget James, sef rhieni Elain, yn egluro pwrpas y gronfa a'r hyn a'u symbylodd i agor yr apêl.

Cyn troi am adref mwynhawyd gwledd o gawl a chrwmbwl neu reis, y cyfan wedi ei baratoi ar ein cyfer gan Delyth Jones a Heini Thomas. Diolchwyd iddynt am y pryd blasus gan Mr Aneurin Jones a hefyd i Delyth am ei haelioni yn cyfrannu nwyddau'r ginio gan ddymuno fod yr arian i gyd yn mynd at Apêl Elain Gwawr.

Newyddion ardderchog i'w deall fod Mrs Betsi Jones, 8 Maesyfelin wedi dychwelid adre ar ôl treulio tri mis a hanner yn yr ysbyty. Pob dumuniad da am adferiad llwyr a buan i chi yw'r neges gan bawb.

Ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fawrth, a hithau ar fin dathlu ei phenblwydd yn un oed, bedyddiwyd Elain Gwawr yn ei chartref yn Tŷ Penlan, Llanbadarn gan y Parch Goronwy Evans. Manteisiodd Mr Evans ar yr achlysur i gyflwyno siec o £327.00 i'r teulu ar ran swyddogion ag aelodau Brondeifi, sef cyfanswm y casgliad Gŵyl Ddewi at Apêl Elain Gwawr.

Dyddiadau i'w Cofio: 17eg o Ebrill – Gwasanaeth Sul y Blodau am 10.00 y bore; 24ain o Ebrill

– Gwasanaeth Pawb Ynghyd a Sul y Rhoddion am 2.00. Oherwydd fod y Gymanfa Ganu ym Mhantdefaid ar y 10fed o Ebrill, ni fydd gwasanaeth ym Mrondeifi.

Urdd y Benywod Brondeifi

Ar Nos Iau y 10fed o Fis Mawrth, croesawodd Mrs Beti Evans, ein Llywydd, ein gwr gwadd am y noson sef Mr Huw Williams sydd yn athro celf a phennaeth cynorthwyol Ysgol Uwchradd Tregaron. Brodor o Lanfairfechan yw Huw, sef pentref glan y mor yng ngogledd Cymru a mawr oedd ei ganmoliaeth o'i ardal enedigol. Cafodd ei addysg ym myd celf ym Mangor ac hefyd yn Loughborough. Dechreuodd ei yrfa fel athro yn Ysgol Tregaron yn 1985 ac mae yno o hyd yn fawr ei barch. Soniodd ei fod wedi cael ei ysbrydoli gan Mr Ogwyn Davies, a oedd yn bennaeth yr adran gelf yn yr ysgol ar yr adeg hynny. Dangosodd enghreifftiau o'i waith ei hunan ac hefyd waith Mr Ogwyn Davies. Mae'n edmygydd mawr hefyd o waith Syr Kyffin Williams a chafodd gyfle rai blynyddoedd yn ol i ymweld a'i gartref pan gyflwynwyd iddo lun o'i waith fel anrheg ac y mae Huw yn trysori hwn yn fawr iawn. Cafwyd y pleser o weld y llun arbennig yma.

Mae Huw yn aelod ffyddlon a gweithgar yng nghapel Bethel Silian. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol iawn gan Mrs Elma Phillips a oedd wedi bod yn cyd ddysgu ag ef.

Yna ar y 18fed o Fawrth cafwyd noson yng nghwmni Morfudd Slaymaker, Elma Phillips a Veronica James. Buont yn son am eu teithiau i Batagonia drwy gyfrwng lluniau a sgysiau diddorol iawn. Cawsom weld gan Morfudd luniau perthynas iddi a oedd yn dathlu ei chanfed penblwydd yn y Gaiman. Hefyd yn bresennol ar y noson 'roedd merch ifanc o'r enw Celeste Fillipponi. Cafwyd ganddi hithau ychydig o'i chefnidir yn y Wladfa. Mae Celeste yn aros gyda Morfudd ac yn arsylwi yn Ysgol Ffynnonbedr am fis gan ei bod yn gobeithio mynd yn athrawes. Braf oedd cael ei chroesawi a chlywed acen unigryw Patagonia wrth iddi siarad Cymraeg yn rhugl. Diolchwyd am noson hwylus gan Dilys Godfrey.

Cymdeithas Hanes

Eric Williams, yr Is-gadeirydd oedd wrth y llyw yng nghyfarfod mis Mawrth, ac unwaith eto roedd yn braf gweld Yr Hen Neuadd yn llawn.

Trist oedd clywed ein bod wedi colli un arall o sefydlwyr y Gymdeithas, sef yr Athro Ian Barton; mis yn ôl bu'r aelodau yn cofio am Dai Davies, Bryncastell, un arall o'r aelodau gwreiddiol, a sefodd yr aelodau am funud yn y ddau gyfarfod i dalu teyrnged iddynt.

Siaradwr gwadd y noson oedd Alan Leech, Llanfair Clydogau. Symudodd i'r ardal o Swydd Hampshire tua 12 mlynedd yn ôl, a chymeryd diddordeb yn hanes y fro. Mae wedi cyhoeddi dau lyfr yn Saesneg yn barod, - 'History of a Cardiganshire Parish', sef hanes ardal Llanfair, a 'Struggle for survival in the Cardiganshire Hills', - sef yr ardal fynyddig rhwng Llanfair a Llanddewi-brefi.

Hanes Llanfair yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd ei destun ar y noson, a bu'n sôn sut i bu i Lanfair ddatblygu ar lan afonydd Teifi a'r afonydd Clywedog, ar ochr Cellan i'r bont yn wreiddiol, lle saif Eglwys y plwyf a lle roedd y sgweier yn byw ym Mhlas Llanfair, ac yna ymledu tu hwnt i bont y Teifi, lle codwyd Capel Mair, y siop a'r hen dafarn, - sydd erbyn hyn yn dŷ annedd.

Dyblwyd rhif y boblogaeth rhwng 1801-61 i 614, ond erbyn 1901 dirywio i 441. Dengys hyn y cynnydd a'r edwino, yn niwydiannau'r ardal, - y gweithfeydd plwm ac arian; codwyd tai unnos ar yr ucheldir, ond gydag amser symudodd y boblogaeth wrth i'r gwaith ddod i ben. Caed gofaint, gwragedd yn gwau sanau, porthmyn, yn ogystal â'r mwynwyr yn byw yn yr ardal; crewyd gwaith wrth greu 'Llyn y Gwaith' i gronni'r dŵr ar gyfer golchfeydd y mwyngloddiau, - y cyfan yn hanes erbyn hyn.

Ochr arall yr afon gwelwyd y melinau, - y Pandy ar gyfer pannu'r brethyn oedd wedi eu gwehyddu'n lleol, a'r felin flawd gerllaw. Cofir am 11 o rhodau dŵr yn dal i weithio yn yr ardal yn yr 1940au.

Mae Alan Leech ar fin cyhoeddi llyfryn arall ar hanes Llanfair, - y tro hwn Daniel Jenkins, Pentrefelin fydd ei destun, - un a fu'n Brifathro yn ysgol Llanfair, ac yn fawr ei barch yn y gymdogaeth. Edrychir ymlaen yn fawr at ei gyhoeddi.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan Eric Williams, a dywedodd mae braf yw gweld pobol fel ef a Sally ei wraig yn cymeryd diddordeb yn yr ardal, ac yn ymuno yng ngweithgareddau'r plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 19eg, yn yr Hen neuadd, pan fydd Megan Hayes, (Lloyd, Delville gynt) yn sôn am 'Cymry Llundain, a'r farchnad laeth rhwng y ddau Ryfel Byd'. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist

Ar 2il o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Gwendoline Jones, Llanybydder yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn – Dynion – 1af. Gwendoline Jones, Llanybydder, 2il. Brian Jones, Trelech, 3ydd. Peter Jones, Llambled, Merched – 1af. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled, 2il. Catrina Davies,

Aberaeron, 3ydd. Nana Davies, Stryd Newydd, Llambled, Carden Miniature – Dynion – Ceinwen Jones, Penbryn, Llambled, Merched – Dilwen Roderick, Llambled. Bwrw Allan, Enillwyr – Ray Jenkins, Llanybydder a Catrina Davies, Ail – Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach a Dai Davies, Pensinrig, Cellan.

Ar 16eg o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion – 1af. Iorwerth Evans, Llangybi, 2il. Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Gwendoline Jones, Llanybydder, Merched – 1af. Catrina Davies, Aberaeron, 2il. Ifan P. Jones, Aberarth, 3ydd. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled, Carden Miniature – Dynion, Edward Lockyer, Llambled, Merched – Marged Phillips, Tregaron. Bwrw Allan, Enillwyr – Ray Jenkins, Llanybydder a Ifan P. Jones, Aberarth, Ail – Edward Lockyer a Nancy Davies. Bydd y Gyrfa oedd Chwist mis Ebrill ar nos Fercher 13eg a 27ain. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr

Bu Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch yn dathlu Gŵyl Dewi trwy gynnal cinio ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ar 14 Mawrth 2011. Cyflwynodd y Llywydd Mrs. Mary Davies, y gŵr gwadd a dweud mai pleser ac anrhydedd oedd croesawu y Prifardd Idris Reynolds a Mrs. Elsie Reynolds, Brynhoffnant i'r ginio. Dywedodd Mary bod y ddau yn adnabyddus iawn i bawb yn adral Llanbed a'i bod yn braf iawn estyn croeso i Elsie sydd yn gyn aelod o'r gangen, yn ôl at ei hen ffrindiau. Hefyd, dywedodd Mary ei bod yn bleser mawr ganddi groesawu Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, sef Mrs. Mererid Jones i'r ginio. Ar ôl ginio flasus, cafwyd araith gan Idris ar fywyd a doniau barddonol arbennig y diweddar Archdderwydd a'r Prifardd Dic Jones, neu 'Dic yr Hendre' fel yr adnabyddir ef. Bu'n bleser pur gwrando ar Idris yn siarad yn raenus ac yn adrodd barddoniaeth ddisglair yr Archdderwydd a'i wau i mewn i'w araith wych, a'r aelodau yn mwynhau gwrando arno yn fawr iawn. Yna cyflwynodd Mary y Llywydd Cenedlaethol Mrs. Mererid Jones i'r aelodau. Mae Mererid yn dod yn wreiddiol o Fachynlleth ond wedi ymgartrefi erbyn hyn ym Mryngwyn, Castell Newydd Emlyn. Cafwyd araith ddiddorol iawn gan Mererid yn sôn am ei chefnidir, a gwybodaeth lawn am ei swydd bwysig fel Llywydd Mudiad. Yna cafwyd y diolchiadau gan groesawraig y noson sef Mrs. Morfudd Slaymaker. Yn gyntaf diolchodd Morfudd i staff y

Llanbedr Pont Steffan

Brifysgol am baratoi gwledd o fwyd blasus ar gyfer cinio'r gangen. Yna aeth ymlaen i ddiolch i'r gwesteion am ddod a diddori'r aelodau gyda'i areithiau gwyh. Diolchodd i'r gŵr gwadd, a dywedodd bod yr aelodau wedi cael pleser mawr o wrando ar araith o safon uchel iawn gan Idris ar y noson arbennig yma. Ategodd at hyn trwy ddweud mai dim ond Idris byddai'n medru cyflwyno araith o'r fath yn deimladwy ac yn ddidwyll, yn raenu a rhagorol. Diolchodd Morfudd hefyd i Mrs. Mererid Jones a dweud ei bod yn bleser cael presenoldeb y Llywydd Cenedlaethol yng nghinio'r gangen. Rhoddodd ddiolch hefyd i Mrs. Verina Roberts a Mrs. Dorothy James a Miss Caroline Evans a Mrs Mair Jones am drefnu'r noson a gwerthu tocynnau'r raffl, a hefyd i'r aelodau eraill oedd wedi helpu i wneud y noson yn un mor ddiddorol a chofiadwy. Yna tynnwyd y raffl gan Mary a'r enillwyr oedd; Gwen, Eryl, Mererid Jones, Gwenda, Aerwen, Elma ac Ann. Enillydd y raffl misol oedd Mrs. Mair Jones. Diolchodd Mary i'r aelodau oedd wedi rhoi gwobrau'r raffl, ac i bawb o'r aelodau oedd wedi dod i gefnogi a mwynhau'r noson. I gloi noson hwylus fe ganodd yr aelodau ben-blwydd hapus i Mary y Llywydd a rhoddwyd diolch iddi am y gwin. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill y 11, pan bydd yr aelodau yn ymweld â Chanolfan Bwyd Cymru, Horeb gyda Rhian Jones – pawb i gwrdd ar y Rookery am 6.

Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh

Twynog Davies, Ysgrifennydd y capel oedd y siaradwr gwâdd yng nghyfarfod y Gymdeithas ar brynawn Gwener 18 Chwefror. Yn ei chyflwyniad, cyfeiriodd y Cadeirydd Mrs Eurwen Davies at ei waith diflino dros y blynyddoedd ar ran Eglwys Shiloh a'r Gymdeithas ac hefyd at gyfraniad ei briod Hazel.

Testun ei sgwrs oedd "Darnau ohonof ar gân" ac fe'i cyflwynodd yn gelfydd iawn trwy gyfeirio at wahanol gyfnodau yn ei fywyd a'i yrfa a chyplys gyda rhain ddarnau o gerddoriaeth oedd wedi dylanwadu arno.

Yr oedd y blynyddoedd cynnar gyda'i wreiddiau yn Nyffryn Tywi, dylanwad y cartref, y capel, dysgu chwarae'r ffidil, profiadau cymanfoedd canu a'i drwytho yn niwylliant ei gefndir- yn gyfnod euraidd. Felly hefyd, ond yn wahanol, ei brofiad fel aelod o gôr a pharti yn y coleg ym Mangor, ac wedi iddo briodi a chael swydd yn yr hen Sir Feirionydd, arwain parti o fechgyn a chymryd rhan mewn cyfarfodydd cystadleuol. "Diolch i'r Ior" oedd un gân yn ei atgoffa o'r cyfnod yn ogystal â'r blynyddoedd wedi symud i Aberteifi ac arwain a

chael llwyddiant gyda chôr Penparc.

Llwyddiant y côr plant o dan ei arweiniad gyda "Wrth Afonydd Babylon" oedd un o'r uchafbwyntiau wedi symud i fyw i Lamed, ac wedyn yn 1984, arwain côr yr eisteddfod gyda Delyth Hopkins Evans yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn lleol. "Cân Osian" gan y grŵp Cwlwm, perfformiad gan Gôr y Mormoniaid(gwyliau yn UDA) ac atgofion o nosweithiau o ganu dan ei arweiniad yn y dref, sef emynau D T Evans, emynau y Diwygiad a noson Apêl Sierra Leone oedd hefyd yn gofiadwy. Datganiad côr yr Eisteddfod o "Morte Christe" oedd y dewisiad i gloi ei gyflwyniad.

Owen Jones a ddiolchodd am gyfraniad hynod ddiddorol a roddodd bleser a mwynhad arbennig i'r aelodau.

Aelwyd Llanbedr Pont Steffan

Ar Fawrth y cyntaf cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl yn neuadd Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. Ar ddechrau'r noson gwnaeth Twm Adams groesawu ein beirniaid sef y ddwy chwaer Lena Daniel a Mareth Lewis. Cafodd y ddwy yma waith caled yn dewis ein buddugwyr ymysg yr holl gystadlu brwd.

Gwnaeth pawb mwynhau eu hunain yn fawr iawn wrth gymryd rhan a cheisio eu gorau glas i sicrhau taw eu tîm nhw fyddai'n fuddugol ar ddiwedd y noson. Roedd gennym 2 dim - 'Y Tîm Twp' a'r 'Daffs a'r Cens'. Arweinydd y noson oedd Janet a Rosaline yn cynorthwyo. Cawsom lawer o amrywiaeth o gystadlaethau difyr - sgets, gorffen limrig, stori a sain a pharti llefaru dan 5 oed.

Ar ddiwedd y noson 'Y Tîm Twp' ddaeth i'r brig gyda 21 o farciau gyda'r 'Daffs a'r Cens' yn eu dilyn yn agos iawn gyda 18 o farciau. I gloi'r noswaith gwnaeth Sulwen Richards ddiolch i'r ddau feirniad am eu gwaith caled yn beirniadu.

Cyngor Tref

Y mae Adolygiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2010 wedi ei gwblhau gan y Cyngor Tref. Gwahoddir sylwadau gan y cyhoedd. Mae'r ddogfen ar gael ar gyfer y cyhoedd i'w harchwilio ar y wefan www.lampeter-tc.gov.uk, Llyfrgell y Dref neu oddi wrth y Clerc ar 01570 421496.

Diwedd Taith

Cantorion a chefnogwyr y gân yn ardal Llanbed – dalier sylw! Bydd Côr Ysgol Gyfun Llanbed a Chôr Ysgolion Cynradd Y Dalgylch yn canu mewn noson arbennig iawn yng Nghapel Soar, Llanbed, ar ddydd Iau, Ebrill 7fed, am saith yr hwyr.

Dyma noson olaf taith Gerald Morgan, Tregaron, o gwmpas Cymru, yn cynnal nosweithiau o ganu ei emynau a'i garolau er mwyn



Cyflwyno llun o waith yr arlunydd, Aerwen Griffiths gydag englyn o waith y Prifardd Idris Reynolds i Mr Arthur Roderick fel cydnabyddiaeth iddo am ei gyfnod o 54 mlynedd yn ddiagon yng nghapel Brondeifi, Llanbed. Yn cyflwyno'r llun mae ei Weinidog, y Parch Goronwy Evans gyda dau o'i gyd-ddiaconiaid Mr David Morgan a Mr Aneurin Jones ynghyd â rhai o'r ieuencid.

codi arian i'r Urdd.

Ysgolion Llanbed a'r cyffuniau fydd yn derbyn elw'r noson, Yr Ysgol Gyfun ac Ysgolion Ffynnonbedr, Carreg Hirfaen Cwmann, Cwrtnewydd, Llanwenog, Llanwnnen, Trefilan Talsarn, Llanllwni ac Ysgol Y Dderi, Llangybi. Bydd plant Blynyddoedd 3,4,5 a 6 o'r ysgolion cynradd yn dod at ei gilydd i ganu carol i'r Pasg, tra bod Côr Yr Ysgol Gyfun yn canu emyn. Cenir emyn o waith Gerald Morgan, hefyd, gan Bedwarawd Twynog Davies.

"Bryncerdin ac emynau eraill", llyfryn emynau Gerald Morgan, fydd rhaglen y noson. Mae'n costio £2 a bydd £1 o bob copi a werthir yn cael ei gyfrannu i'r ysgolion lleol.

Twynog Davies fydd yn arwain y canu gydag Eurwen Davies wrth yr organ. Dewch yn llun i gefnogi gwaith yr Urdd yn eich ysgolion a'ch cymunedau.

Cymdeithas Capel

Cynhelir Cyfarfod y Gwanwyn Cymdeithas Capel yn Llanbed ar ddydd Sadwrn, 14 Mai. Cefnogir gan y gymdeithas astudiaethau i dreftadaeth Anghydffurfiol Cymru, a chadwraeth capeli Cymru. Mae gan CAPEL aelodau ymhob rhan o Gymru, a hefyd yn Lloegr, a threfnir cyfarfodydd mewn ardal wahanol o Gymru ddwywaith y flwyddyn.

Bwriedir ymweld ar 14 Mai â chapel Brondeifi, Noddfa, Soar, St Thomas, a Shiloh, ynghyd â Chapel y Brifysgol, a threfnir cyfarfod yn y Brifysgol pan gyflwynir darlithiau gan Peter Austin, Swyddog Datblygu Twristiaeth Cyngor Ceredigion, ar 'Faith Tourism in Ceredigion' a Susan Fielding ar weithgarwch Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn perthynas â chofnodi capeli Cymru.

Estynnir croeso cynnes i ddarllenwyr Clonc i ymuno yn y Cyfarfod. Y tâl cofrestru, gan gynnwys coffi, cinio yn y Brifysgol, a the, fydd

£15, neu £ 5, os dymunir hepgor cinio. Dylid cofrestru erbyn 1 Mai, ac anfon am y ffurflen gofrestru at Ysgrifennydd y Gymdeithas: y Parch Peter Jennings, ffôn: 01492 860449 neu e-bost: obadiah1@btinternet.com.

Cristion yn sgwrsio â Beryl

Diddorol iawn oedd darllen hanes Beryl Davies, un o aelodau Noddfa yn y rhifyn cyfredol o'r Cristion. Bu Beryl yn rhannu ei atgofion â'r darllenwyr wrth ateb nifer o gwestiynau yn ymwneud â'i magwraeth oedd yn cynnwys mynd i oedfa ac Ysgol Sul, yn ogystal â'i chyfnod yn byw yng Nghaerdydd ac astudio yn y Coleg Cerdd a Drama, ei diddordeb mewn barddoni a phwysigrwydd cerddoriaeth yn ei bywyd. Hefyd mae'n cyfeirio at ei chysylltiad agos â chapel Soar y Mynydd lle bu'n gwasanaethu wrth yr organ am flynyddoedd maith. Dyma ateb Beryl i'r cwestiwn olaf gan Cristion am ei gobaith a'i gweddi dros ei chyd- Gymru, "Y byddwn yn fwy addfwyn a charedig wrth ein gilydd, yn llai beirniadol ac yn fwy tosturiol a chymwynasgar".

Cylchgrawn dau-fiswl yw Cristion a gyhoeddir gan Fwrdd Cyhoeddi ar ran Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys yng Nghymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Eglwys Gatholig Rufeinig.

Fel y gwyddoch, Beryl yw awdur 'Emynau'r Mynydd a Dylanwad Bore Oes' sef casgliad o emynau, cerddi ac emyndonau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Caryl a Ben Herrick, Pontfaen ar enedigaeth merch fach – Gwenno Elen. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Hefyd llongyfarchiadau i Aeron ac Ann Hughes, Cwmhendryd ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf ac i Mrs Magw Hughes, Pantydderwen ar ddod yn hen-famgu.

O geiniog i geiniog y tro'r arian yn bunt



Croeso i'n colofn ariannol newydd. Bwriad y golofn hon yw ceisio tynnu sylw at faterion ariannol presennol ac ehangu ar eich gwybodaeth gyffredinol ar yr hyn sydd yn eich effeithio o ddydd i ddydd. Dros y misoedd nesaf byddwn yn trafod pensiynau, buddsoddiadau, morgeisi, cynllunio treth a llawer mwy.

Fel dwi'n siŵr y gwyddoch nid yw'r geiniog yn ymestyn cymaint ag yr oedd hi, â gyda'r wlad yn debygol o barhau mewn trybini ariannol yn y dyfodol agos, mae'n anodd rhagweld pryd fydd y sefyllfa yn gwella.

Eisoes mae'r llywodraeth wedi cymryd mesurau i geisio adfer y sefyllfa, ac mae'r newidiadau yma yn debygol o gael effaith ar fywyd bob dydd.

Dechreuodd y flwyddyn newydd gyda chynnydd ar y doll ar danwydd i'w lefel uchaf erioed o 0.76c y litr. Hefyd gwelwyd codiad yn 'insurance premium tax' (treth sy'n gynywysiedig yn cost yswiriant cyffredinol megis yswiriant car ac yswiriant cartref) o 5% i 6%. Ond yn fwy amlwg oedd y cynnydd yn Dreth ar Werth (TAW) i 20%. Am y rhesymau yma ynghyd â ffactorau eraill, rydym wedi gweld cynnydd o 4.4% yng ngwerth chwyddiant, hynny yw cynnydd yn y gost o brynu eitemau dyddiol megis bara, llaeth, tanwydd, dillad ag ati.

O'r 6ed o Ebrill 2011, mi fydd na droad arall yn y sgrif treth, gyda chynnydd o 1% yn brif gyfradd Yswiriant Gwladol (National Insurance). Tynnwn eich sylw at rhai o'r newidiadau sydd yn cael ei chyflwyno gan y llywodraeth ar y 6ed o Ebrill 2011 isod.

Treth Incwm

Mae'r lwfans personol (y pwynt lle mae treth incwm yn daladwy) yn cynyddu o £1,000 i £7,475 o'r 6ed Ebrill 2011. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn amcangyfrif bydd tua 500,000 o bobl ddim yn talu treth incwm oherwydd y newid yma. Mae'r Sefydliad hefyd yn amcangyfrif bydd 750,000 fwy o bobl yn newid i fod yn drethdalwyr o'r lefel uchaf wrth i'r trothwy ar gyfer lefel uchaf o dreth incwm cwmpo o £37,400 i £35,000. Mae'r llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi bydd man cychwyn ar gyfer y lefel uchaf o dreth incwm yn aros at lefel 2011/12 hyd oleuaf 5 Ebrill 2013 ac mae yna fwriad i rewi maint y 'basic rate band' yn 2013/14.

Mae adolygu eich opsiynau treth drwy gwneud y mwyaf o'ch eithriadau treth flynyddol a'ch rhyddhadau treth dal yn syniad doeth, ag falle yn fwy pwysig nag erioed.

Treth Etifeddiaeth

Mae'r llywodraeth wedi cadarnhau bod y 'nil rate band' wedi rhewi tan 2015 at lefel 2009/10 o £325,000.

Yswiriant Gwladol

Bydd yswiriant gwladol yn cynyddu, gyda'r gyfradd i weithwyr sy'n gymwysedig yn codi 1% i 12%. Bydd unigolion sy'n hunan cyflogedig hefyd yn gweld cynnydd wrth iddo gynyddu o 8% i 9%.

Cynilion

Gwelir lwfans buddsoddi ar gyfer Cyfrif Cynilo Unigol (ISAs) yn cynyddu o £10,200 i £10,680, neu o £5,100 i £5,340 i'r cyfrif arian parod.

Pensiynau a Budd-dal Ymddeol

Mae'r lefel o gyfraniadau pensiwn a fydd yn derbyn rhyddhad treth (tax relief) yn cwmpo i'r lwfans blynyddol o £50,000, lle'r oedd yn £255,000 yn gynt. Yn ogystal cyflwynir deddfwriaeth i ddileu'r angen i ddefnyddio eich cynilion pensiwn i ryddhau incwm cyn cyrraedd 75 mlwydd oed. Mae hyn wedi agor y drws i amryw o opsiynau newydd i bobl sy'n cyrraedd oedran ymddeol.

Bydd Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn codi o £97.65 i £102.15 yr wythnos hefyd yn y flwyddyn treth newydd.

Gyda'r holl newidiadau yma, gallwn faddau i chi am feddwl ei bod hi'n wastraff amser i ystyried unrhyw fath o gynllunio ariannol. Ond yn ffodus nid yw'r drefn o gynllunio syml a chall yn ddiffrwyth. O gofio hyn efallai ei bod hi yn fwy pwysig nawr nag erioed i dderbyn cyngor ariannol proffesiynol er mwyn ymestyn gwerth pob ceiniog.

Testun trafod mis nesaf fydd: Opsiynau ymddeoliad.

Gan Beca Russell, Cyngorwr Ariannol Annibynol gyda Cyfri Cyfyngedig

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Tref Llambod

Maer: Rob Phillips, Clerc: Eleri Thomas, Cyngorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cyngorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Chwefror 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Bu munud o dawelwch i goffâu diweddar Ron Davies. Offrymwyd gweddi gan Hag Harris.

Plismona - Derbyniwyd amcangyfrif am gost ailosod post sy'n dal basged grog ar y Comins. Roedd y person a wnaeth y difrod wedi talu am gostau cwblhau'r gwaith hwnnw. Penderfynwyd peidio â gosod mainc ar Stryd Fawr y dref. Mae'r heddlu'n dal i archwilio Parc-yr-Orsedd yn gyson.

Cadarnhaodd Hag Harris a Kristiah Ramayah ei bod yn derbyn swyddi Maer a Dirprwy Faer 2011-12.

Mae hysbyseb yn gwahodd ceisiadau i harddu'r ardal o gwmpas y Ffynnon wedi ei osod ar wefan y Cyngor ynghyd â disgrifiad o'r gwaith a ddisgwylir.

Mae Banc HSBC wedi cynnig cefnogi gwaith gan wirfoddolwyr i adfer y gwaith cerrig o gwmpas y Ffynnon. Penderfynwyd na fyddai rhagor o adnoddau'n cael eu gwario ar ymchwil i Siartr Marchnad Llambod. Penderfynwyd holi am ragor o fanylion am y daith gerdded 250 milltir a fydd yn cyrraedd Llambod ar 4 Mai. Nodwyd y byddai'r cyfrifoldeb am y Pwll Nofio'n cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir Ceredigion.

Cefnogodd y Cyngor gynnig yn gwrthwynebu cynllun y llywodraeth glymbleidiol yn Llundain i gau dwy o orsafoedd gwylwyr y glannau yng Nghymru ac is-raddio statws un orsaf arall.

Derbyniwyd tri chais gan wahanol fudiadau a oedd am gyfle i wneud cyflwyniad gerbron y Cyngor. Mae'r gwaith ar ffordd Mountwalk wedi'i gwblhau ac offer atal cyflymder wedi'u gosod. Derbyniwyd cais i ystyried cynhyrchu taflen dywys gryo i Llanbedr. Penderfynwyd mai Cymdeithas y Preswylwyr fyddai'r corff priodol i reoli adnoddau hamdden y datblygiad arfaethedig ger Brongest ar Ffordd Llanfair. Nodwyd bod plant yn gollwng sbwriel ger Llys Idwal.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merch.

Cellan, Llambod

01570 422895

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Lucy Wood
Oed: 26
Pentref: Cwrtnewydd
Gwaith: Arwerthwr Tai i John Francis, Llambled.
Partner: Martin Harvey
Teulu: Mam, Dad a 2 frawd.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd i'r parc gyda Dad.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Chucklevision.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Trin pobl yr un ffordd hoffet ti gael dy drin.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Take That pan oedden nhw gyda'i gilydd am y tro gyntaf.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Nyrs.

Ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar y traeth.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Bridget Jones!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Yr heddwch a'r golygfeydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pawb yn gwybod dy fusnes.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Rwy'n ail-gylchu cymaint ag y galla i a dydw i ddim yn defnyddio'r car heb eisiau.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl ddau wynebog.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Corsa SXI

Sut fyddet ti'n gwario £10,000?
Prynu car newydd.



Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan gwmpais yn yr eira a thorri'n mraich yn wael.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar fy mhenblwydd llynedd ar ôl yfed gormod!

Eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Gwerthu tŷ am y tro cyntaf.

Ac yn bersonol?
Pasio prawf gyrru y trydydd tro.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Bod yn ifanc ac eisiau tyfu lan yn rhy gloi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Tynnu colur cyn gwely bob tro ac yfed digon o ddwr.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Chwarae pêl droed.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Ni yma am amser da nid amser hir.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Symud i Gymru pan oeddwn yn 8 oed.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Trefnus, Meddylgar, 'Sensitive'.

Beth yw barn pobl eraill amdanat?
'Good laugh'.

Beth yw dy hoff air?
Cwtch.

Beth yw dy hoff adeilad?
Macys, New York.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Robbie Williams!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
'Indian'

Beth yw dy ddiod arferol?
Vodka & Diet Coke.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
'Myrder Mysteries' yn enwedig llyfrau Mark Billingham.

Beth yw dy hoff arogl?
Porfa sy' newydd eu torri.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Agor potel win ac eistedd o flaen tân.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
Rwy'n casau Facebook!

Hoff gân ar dy ipod?
Pink Greatest Hits.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Cael mwy o hyder.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Pen ôl!

Pa beth yr hoffet ei wneud yn dda?
Coginio.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Pobl sy' wedi wynebu amserau caled / trist ond yn cadw i fynd heb achwyn.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Symud dramor.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Esgidiau.

Y gwyliau gorau?
Yfed 'cocktails' ac ymlacio ar y traeth yn Barbados.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Yr Eidal, Dubai, Mauritius.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Cael plant, prynu tŷ a chael gyrfa lwyddiannus.

Pa bwerau arbennig hoffet ti?
Darllen meddyliau pobl.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Tynnu 'contact lenses' mas.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
William Davi Evans, Pontsian

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1			2				
		6					9	
8	2		1	9			4	
		1			4			3
	9		5		3		2	
3			7			5		
	7			3	1		5	6
	8					1		
				4			3	

Atebion Swdocw mis Mawrth:

Llongyfarchiadau i Ken Gas, Gwel-y-Cwm, Llanbed a diolch i bawb arall am gystadlu: Ron Jones, Penbryn, Llanbed; Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Beti Morris, Bro Mihangel, Felinfach.

2	5	7	3	8	4	9	6	1
9	4	1	6	5	2	3	8	7
8	3	6	1	9	7	4	5	2
6	8	5	7	3	1	2	4	9
3	7	4	9	2	5	8	1	6
1	2	9	4	6	8	5	7	3
7	6	3	8	4	9	1	2	5
4	1	2	5	7	3	6	9	8
5	9	8	2	1	6	7	3	4

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambledr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

Llanllwni

Bingo Cylch Meithrin Llanllwni

Cynhelir Bingo Cylch Meithrin
Llanllwni ar Nos Lun y 11eg
o Ebrill yn Nafarn Talardd
Llanllwni, i gychwyn am 8yh
bydd yna wobrau ardderchog i'w
hennill a lluniaeth ysgafn ar gael.

Ysgol Llanllwni

Croesawn bedwar o blant
newydd i'r ysgol – Cameron
a Morgan Steele i'r Adran Iau
a Tia Steele ac Ethan Cobby i
ddosbarth y Babanod. Maent
wedi ymgartrefu'n dda yn eu
dosbarthiadau newydd.

Roedd yn braf gweld y plant yn
eu gwisgoedd Cymreig ar Fawrth
1af. Daeth Mr Tim Jones heibio
i dynnu eu llun. Yn y prynhawn
cynhaliwyd ein Eisteddfod Gwyl
Ddewi. Bu yna gystadlu brwd
rhwng timoedd Teifi, Talog
a Hendre a chymerodd pob
plentyn ran mewn amrywiaeth
o gystadlaethau – llefaru, canu,
dweud jôc, actio, dawnsio, gwaith
ysgrifennu ac arlunio. Ar ddiwedd
y dydd tîm Hendre oedd yn
fuddugol a chyflwynwyd y darian
i'r capteiniaid – Rhian Thomas a
Jasmine Davies. Diolch yn fawr
i Mrs Anne Thorne am feirniadu.
Daeth nifer o rieni a ffrindiau i
wyllo a chefnogi'r plant. Diolch
yn fawr iawn i chi gyd.

Cymerodd pawb o'r Adran
Iau ran yng nghystadleuaeth
Trawsgwlad Ysgolion Cylch
Llambled ar gaeau'r Ysgol Gyfun/
Pob lwc i'r plant a fydd yn mynd
ymlaen i drawsgwlad y Sir.

Daeth P.C. Ernest Gronw atom
gan siarad â'r Adran Iau am
ddiogelwch ar y we. Siaradodd
am bethau da a drwg gyda'r
babanod. Roedd ei ymweliad
yn addysgiadol iawn. Daeth Mr
Marc Griffiths o Radio Cymru
i wneud gweithdy radio gyda'r
plant yn yr Adran Iau. Roedd yn
brofiad newydd i'r plant ac roedd
pawb wedi mwynhau.

Llongyfarchiadau i'r plant
a fu'n llwyddiannus yn
Eisteddfod Llanfihangel-Ar-
Arth yn ddiweddar – rhai ar y
llwyfan ac eraill yng waith celf a
llawysgrifen.

Bu rhai plant yn cystadlu yn
rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd
Cylch Llambled. Roedd yn brofiad
iddynt ganu a llefaru o flaen
cynulleidfau. Llongyfarchiadau i
Sioned Howells a Jasmine Davies
am fynd ymlaen i gystadlu ar
y llwyfan yng nghystadleuaeth
Unawd bl.5 a 6. Daeth Sioned
yn ail a Jasmine yn drydydd. Da
iawn chi ferched. Daeth y parti
canu yn drydydd ac hefyd y grŵp
llefaru. Roedd yn braf gweld dros
ugain o blant yr ysgol ar y llwyfan
yng nghystadleuaeth y Gan Actol.
Roedd pawb wedi mwynhau eu

perfformiad o fwrlwm y syrcas.

C.Ff.I. Llanllwni

Yn ystod wythnos hanner tymor
mis Chwefror wnaeth y clwb
cystadlu yn cystadleuaeth Hanner
Awr Adloniant y Sir yn Neuadd
San Pedr, Caerfyrddin. Ar ôl i
13 glwb gystadlu cyhoeddwyd
ar ddiwedd yr wythnos fod Clwb
Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cipio
yr ail wobwr. Llongyfarchiadau
hefyd i Owain Davies ac i Rhian
Davies am gipio y gwobrau am yr
actorion gorau 18 oed ac o dan.
Llongyfarchiadau i holl aelodau
y clwb!! Hoffwn ddiolch i bawb
a helpwyd allan mewn unrhyw
modd i sicrhau y llwyddiant yma.

Braf oedd gweld neuadd Ysgol
Gynradd Gymunedol Cae'r Felin,
Pencader yn llawn ar nos Wener 4
Mawrth pan wnaeth y clwb cynnal
cyngerdd yn dangos ei doniau
mewn eitemau di-ri. Diolch i
llywyddion y noson sef Mr a Mrs
A Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

Llongyfarchiadau i Ifor Jones
a fuodd yn cynrychioli y Sir
ar lefel Cymru yn Llanellwedd
dydd Sadwrn 26 Mawrth yn y
gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus
Cymraeg dan 14 oed. Ar ôl
cystadlu brwd cyhoeddwyd bod
tîm Sir Gâr yn cipio y wobwr gyntaf
yn y gystadleuaeth yma. Da iawn
ti!

Menter Newydd

Dymuniadau da i John ac Anne
Jones, Hengae are u menter
busnes o redeg Tafarn y Talardd.
Y mae pawb yn edrych ymlaen am
lawer o noswithiau hapus yn eu
cwmni.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elin
Jones, Tynewydd, Maesycrugiau
am gipio'r wobwr 1af am y
Siaradwr gorau dan 21 oed
yng nghystadleuaeth Siarad
Cyhoeddus C.Ff.I. Cymru yn
Llanellwedd yn ddiweddar.

Gorsgoch

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Enfys
Hatcher, Cefnhafod ar gael ei
dewis yn forwyn i Frenhines C.Ff.I.
Ceredigion 2011 – 2012. Mwynha dy
flwyddyn Enfys.

Hefyd, llongyfarchiadau eto i
Enfys a ddaeth yn ail fel siaradwraig
yng nghystadleuaeth Siarad
Cyhoeddus Cymraeg Cymru o dan
21 oed ac hefyd i Gethin ei brawd a
ddaeth yn ail fel Cadeirydd. Daeth y
tîm dan 21 oed Ceredigion yn gyntaf,
gyda Enfys a Gethin a'i cyfnither
Elin yn y tîm.

Cellan

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Alwen a
Simon, Awel Teifi ar enedigaeth eu
merch fach, Mari Anne ac i Andrew
ac Amlyn, Glannantcoy ar ddod yn
ddadcu ac wncwl! Llongyfarchiadau
mawr i John a Roemary ar ddod yn
famgu a thadcu eto.

Penblwydd Arbennig

Pen blwydd hapus i Dorian 8 Bro
Meillion a Joan gynt o Pontfaen
ar gyrraedd eu hanner canfed pen
blwydd ac i Euros Jones Maes y
Berllan a John Davies, Y Ddol ar ei
ben blwydd yn drigain oed.

Ysbyty

Croeso adref i Norman Carter wedi
cyfnod hir yn yr ysbyty a gwellhad
buan i Mary Jones, Hafan wedi iddi
fod yn yr ysbyty.

Cydymdeimlad

Estynnwn gydymdeimlad dwys
a Mike Butler, Bryncoch wedi iddo
golli ei frawd.

Sefydliad y Merched

Bu W.I Cellan yn dathlu Gwyl
Ddewi yn Y Pantri ac maent
wedi bod yn brysur iawn yn
chwarae dartiau yn erbyn timoedd
Ceredigion.

Y Briodas Frenhinol

Fe fydd y Pwyllgor Gwelliant
Pentref a'r W.I. yn trefnu te parti
ar ddiwrod priodas William a
Kate i blant y pentref yn Neuadd y
Mileniwm, Croeso i bawb!

Diolch

Dymuna Alwen a Simon ddiolch
yn fawr i bawb am y llu cardiau
ac anrhegion a dderbyniwyd ar
enedigaeth Mari Anne. Mae wrth ei
bodd yn ei chartref newydd.

Clwb Clonc

Ebrill 2011

£25 rhif 19 :

Lena Daniel,
Llys Barcud, Cellan.

£20 rhif 375 :

Betsy Morgan,
Glanafon, Llanllwni.

£15 rhif 223 :

Meurig Jacob,
Gorwel, Llanybydder.

£10 rhif 464 :

Mrs Anita Williams,
Gwêl-y-Coed, Cwmann.

£10 rhif 353:

Tony Lewis,
Brynawel, Cwmann.

£10 rhif 330 :

Mrs Ann Jones,
Ger-y-Bryn, Llanllwni.



Bu pedwar aelod o'r clwb yn cystadlu dan Gorllewin Cymru yn Birmingham yn y ras McCain trawsgwlad y byd ac rhyng-siroedd y deyrnas unedig, Ras 8K a Caryl Davies yn gorffen yn 255, Gwydion Williams 176 ras dan 20 oed, a merched dan 13 Caitlin Page yn 192 a Ffion Quan 213.

10K ras Gwyl Dewi yn Llanddewi Brefi, Michael Davies yn ail ac 1af vet 40 mewn 37 munud 10 eiliad, Eric Rees yn 2il dynion agored 40 munud 39 eiliad, Steffan Jones 47 munud 32 eiliad, a Caryl Davies yn 2il menywod agored 49 munud 13 eiliad.

David Hooper yn gorffen hanner marathon Llanelli mewn awr 20 munud, Mark Palmer 1 awr 40 munud a Sian Roberts-Jones 1 awr 42 munud.

Parc Singleton oedd lleoliad y gyfres olaf o trawsgwlad Gwent, Caryl Davies yn 56 yn ras y menywod hun a Elen Page yn 101. Merched dan 15 Rhian Jones yn 22 a Caitlin Page yn cael ras dda ac yn gorffen yn y pedwerydd safle. Merched novice 17 - Rachel Priddey, 37 - Sara Jones, 40 - Delyth Ann Jones, 42 Grace Page, 46 - Michell Priddey. Bechgyn novice in 26 - Thomas Willoughby, 42 - Daniel Willoughby a 45 - Matt Small.

Ras Rhayadr 20 o filltiroedd o amgylch llynnoedd dyffryn Elan, Carwyn Thomas yn gorffen y ras yn 4ydd mewn 2 awr, 05 munud, 12 - a 3ydd vet 40 Glyn Price 2 awr 10 munud, Michael Davies 2 awr 20 munud, Gethin Jones 2 awr 25 munud, Simon Hall 2 awr 35 munud, Huw Price 2 awr 39 munud, a Gudrun Jones 4 awr 20 munud, Sarn Helen ennillodd y tim, Carwyn Thomas, Glyn Price, Michael Davies a Gethin Jones. Ras 5 milltir yn Rhayadr Caryl Davies yn gorffen y ras yn yr ail safle mewn 38 munud 14 eiliad.

Richard Marks yn derbyn y wbor vet 60 yn ras 10K Coleg Altantic, Llantwit Major mewn 38 munud 40 eiliad, a Dawn Kenwright hefyd yn ennill y vet 55 category ac yn 10fed menywod mewn 43 munud 39 eiliad, ac Allen Watts yn gorffen mewn 1 awr 34 eiliad.

Bydd Ras Teifi 10 ar Ebrill 24 o clwb rygbi Llambled am 12 o'r gloch, ac ras Cwrtnewydd ar Mai 2fed, ras y plant am 12-45 a'r oedolion am 1 o'r golch, am rhagor o fanylion cysylltwch a Lyn Rees 01570 434244, neu Wendy Davies 01570 481153.

Cwmsychpant

Penblwyddi Arbennig

O fewn wythnos i'w gilydd dathlodd Mary Jones, Penrheol a Sian Jones, Blaenhirbant-Uchaf benblwyddi arbennig. Gobeithio eich bod eich dwy wedi mwynhau'r dathlu.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Lois Jones, Blaenhirbant-Uchaf ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Gylch ac hefyd am ddod yn ail yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion. Hefyd i Elin Davies, Tyngrug-Isaf ar ei llwyddiant hithau yn y Cylch. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Mae nifer o blant y pentref yn aelodau o'r Parti Unsain a'r Grwp Cerddoriaeth Creadigol Ysgol Cwrtnewydd a ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Pob lwc i chi

yn Abertawe ar ddiwedd mis Mai.

Hefyd, llongyfarchiadau i Meinir Davies, Caerwenog ar ddod yn drydydd fel diolchyd yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg dan 16 oed a gynhaliwyd yn Llanelwedd yn ystod mis Mawrth.

Ysgol Sul Capel-y-Cwm

Ar ddydd Sul cyntaf mis Mawrth, cafwyd gwahoddiad gan Ysgol Sul Capel-y-Groes i ymuno â hwy yn eu gwasanaeth yn y capel gyda'r Parch Cen Llwyd ac yn fwy pwysig i baratoi cwpanaid o de/coffi ar ôl y gwasanaeth. Diolch i chi am eich croeso.

Cynhaliwyd Arholiad yr Ysgol Sul ar fore dydd Sul, Mawrth 20fed. Braf oedd cael croesawu rhai o Gapel Bwlch-y-Fadfa atom. Mrs Nanna Ryder fu'n paratoi'r gwaith i'r plant.

Llanwnnen

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Carol ac Eifion, Pantywilco ar enedigaeth merch fach, Mari Gwenllian ganol mis Mawrth. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Sefydliad y Merched

Bu aelodau Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y modd traddodiadol eleni eto. Caffi Neuadd y Dref oedd y lleoliad eleni a chafwyd swper blasus iawn o Gawl Cennin, pastai afal a phice bach. Estynnodd y llywydd Mrs Gwen Davies groeso cynnes i bawb a dymunodd wellhad buan i Mrs Mary Davies a oedd wedi bod yn anhwylyd. Hefyd cydymdeimlodd a Mrs Doris Jones a oedd wedi colli ei chwaer sef Mrs Betty Williams, Benin, Llambled yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gwnaed y trefniadau terfynol ar gyfer Pwyllgor y Gwanwyn o'r grŵp Onnen a gynhelir yn Llanwnnen yn tro hwn.

Diolchodd Mrs Gwen Davies i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu'r noson ac enillwyd cystadleuaeth y mis am y darn o arian hynaf gan Avril Jones.

Diolch

Yn dilyn fy ymadawiad ag Ysgol Gynradd Llanwnnen ym mis Rhagfyr 2010, dymunaf i - Nia Davies, Maesglas, Drefach ddiolch i BAWB am y rhodd hael o dysteb a dderbyniodd mewn gwasanaeth yn yr ysgol ar fore dydd Iau, Mawrth 24ain. Gwerthfawrogaf eich caredigrwydd yn fawr iawn tuag ataf ac i bawb am ei cefnogaeth dros y ddeuddeg mlynedd y bwm yn aelod o staff yr ysgol.

Ysgol Llanwnnen

Dechreuwyd mis Mawrth yn ôl y traddodiad, trwy gynnal Eisteddfod Gŵyl Dewi yn yr Ysgol. Cafwyd prynhawn o gystadlu brwd yn amrywio o'r cystadlaethau traddodiadol i chwibanu a dweud jôc. Teifi/Grannell a ddaeth i'r brig ar ddiwedd yr Eisteddfod yn ennill tarian y Llywodraethwyr am flwyddyn arall.

Cafwyd gwahoddiad eleni eto gan gyngor cymuned i ddiddanu'r gynulleidfa yng Ngwesty'r Grannell yn ei noswaith Cawl a Chân. Dymuna'r ysgol ddiolch i'r pwyllgor am ei rhodd garedig iawn i'r ysgol o elw'r noswaith lwyddiannus.

Ar brynawn yr 11eg o Fawrth, aeth disgyblion i lawr i Ysgol Uwchradd Llambled i gystadlu yn nhrawsgwlad y cylch. Llongyfarchiadau mawr i Heledd Jenkins a ddaeth yn gyntaf yn ras i ferched blwyddyn 4 a phob lwc iddi yng nghystadleuaeth trawsgwlad Ceredigion yn Llangrannog mis

nesaf.


Dros y misoedd diwethaf, mae llawer iawn o ddisgyblion yr ysgol yn paratoi'n ddiwyd ar gyfer Eisteddfod Urdd y Cylch. Cafwyd llawer o hwyl a llwyddiant a daeth Twm Ebbsworth i'r brig yn Llefaru Bl 5 a 6 a bu'n cynrychioli Cylch Llambled yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion.



Gwahoddwyd cyn aelod o'r staff, sef Miss Nia Davies yn ôl i wasanaeth er mwyn cyflwyno ei thysteb yn dilyn deuddeg mlynedd o'i gwasanaeth diflino i Ysgol Llanwnnen a'r pentref. Cyflwynwyd y dysteb gan y disgybl hynaf, Ellen Jones.

Y dilyn tymor brysur iawn, mae'r disgyblion yn barod iawn am wyliau Pasg haeddiannol iawn. Ar ddiwedd y tymor, byddwn yn ffarwelio gyda'n Pennaeth, Mr Siôn Mason-Evans. Dymunwn bob llwyddiant yn ei swydd newydd fel Pennaeth Ysgol Parc Waundew, Caerfyrddin. Dymuna Mr Evans ddiolch i holl rieni a chyfeillion Ysgol Llanwnnen am eu cefnogaeth mae wedi derbyn dros y chwech mlynedd ddiwethaf.

Llangybi



Rhodri Pugh Davies, Llangybi yn fuddugol ar yr adroddiad digri yn Eisteddfod Swyddffynnon.

Eisteddfod Gylch

Ar Ddydd Iau, 17eg o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod Urdd Cylch Llambed yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed. Cynhaliwyd rhagbrofion y Llefaru, Canu ac Alaw Werin yn Festri a Chapel Brondeifi yn y bore, lle dewisiwyd tri llwyddiannus ym mhob cystadleuaeth i berfformio ar y llwyfan yn ystod y prynhawn. Beirniaid y dydd oedd fel y ganlyn- Llefaru - Ann Pash, Cerdd - Gareth Wyn Thomas a Geraint Thomas, Dawns - Anna ap Robert, Dawns Werin - Bethan Fflur Roberts. Y cyfeilyddion am y dydd oedd Carys Lewis a Lois Williams, a diolch iddynt am eu gwaith graenus. Bu cystadlu brwd ac o safon uchel iawn a chafwyd diwrnod lewyrchus tu hwnt. Llywydd y dydd oedd Mrs Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin am ei chyfraniad i fydd addysg a'i chyswllt ag Ysgol Carreg Hirfaen a oedd yn trefnu'r Eisteddfod. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at ddiwrnod llwyddiannus a phob llwyddiant i holl gystadleuwyr yr Ysgolion ac Adrannau yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ym Mhonthrydfendigaid ar ddydd Sadwrn y 26ain o Fawrth.

Eisteddfod Rhanbarth

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion [Cynradd] ym Mhafiliwn Pontrydfendigaid ar ddydd Sadwrn, Mawrth 26ain. Dyma ganlyniadau o Gylch Llambed:

Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Bl.6 ac iau – 1af Y G Cwrtnewydd; Unawd Pres Bl.6 ac iau – 3ydd Owen Shröder, Y G Cwrtnewydd; Unawd Piano Bl.6 ac iau – 3ydd Alpha Jones, Y G Cwrtnewydd; Llefaru Unigol Bl.2 ac iau – 3ydd Nia Beca Jones Y G Ffynnonbedr; Unawd Bl.5 a 6 – 1af Charlotte Saunders Y G Ffynnonbedr; Llefaru Unigol Bl.2 ac iau i Ddysgwyr - 2il Joseph Gregg, Y G Ffynnonbedr; Deuawd Bl.6 ac iau – 2il Charlotte a Joseph Saunders, Y G Ffynnonbedr; Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau – 2il Lois Jones, Y G Cwrtnewydd; Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 – 2il Charlotte Saunders, Y G Ffynnonbedr; Ymgom Bl.6 ac iau i Ddysgwyr – 3ydd Y G Ffynnonbedr; Parti Bl.6 ac iau (Adran) – 3ydd Adran Bentref Llambed; Parti Unsain Bl.6 ac iau (Ysgolion â hyd at 50 o blant) – 1af Y G Cwrtnewydd; Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Adran) – 3ydd Adran Bentref Llambed; Cân Actol Bl.6 ac iau (Y.C./Adran) (Ysgolion â hyd at 100 o blant) – 2il Y G Llanllwni; Côr Bl.6 ac iau (Ysgolion â hyd at 150 o blant) – 3ydd Y G Carreg Hirfaen; Côr Bl.6 ac iau (Ysgolion â dros 150 o blant) – 2il Y G Ffynnonbedr.

Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau – 3ydd Maddy Thorogood, Ysgol Gynradd Y Dderi; Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau (Unigol neu Grwp) – 1af Shannon Walton Cropp, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr a 3ydd Grwp Cwrtnewydd, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; Gwaith Creadigol 2D Bl. 5 a 6 (Unigol neu Grwp) – 3ydd Grwp Cwrtnewydd, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau – 2il Nathen Charles Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 – 2il Harri Williams, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gwaith Creadigol 3D Bl. 5 a 6 – 1af Robert Slawkowski, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 2il Lois Price, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr a 3ydd Daniel Lewis, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Serameg / Crochenwaith Bl. 2 ac iau – 2il Dion Davies, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6 – 1af Zoe Jones, Ysgol Gynradd Y Dderi; 2il Scot Janes, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 2 ac iau (Gwaith Grwp) – 2il Grwp Pili-Pala, Ysgol Gynradd Y Dderi; 3ydd Grwp Y Ddraig, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4 (Gwaith Grwp) – 1af Grwp Y Dderi, Ysgol Gynradd Y Dderi; Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6 (Gwaith Grwp) - 1af Liam Newitt a Bradley Rowlands, Ysgol Gynradd Y Dderi; 2D Bl. 6 ac iau (Angh. Arbennig)(C) - 1af Chloe Marie Jones, Ysgol Gynradd Llanwenog; 2D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) – 1af Grwp Llambed, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) – 1af Grwp Michael Hancock, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (D) – 1af Grwp Llambed, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (D) – 1af Grwp Catrin, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a 2il Grwp Dylan, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Argraffu Bl. 2 ac iau – 2il Undeg Jones, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen a 3ydd Charlotte Howells, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen; Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl.6 ac iau - 2il Sioned Fflur Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7 ac 8 – 1af Catrin Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Pyped Bl. 2 ac iau – 2il Zoe Jarman Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Pyped Bl. 3 a 4 – 1af Ffion Betts, Ysgol Gynradd Y Dderi a 3ydd Lauren Hill, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Pyped Bl. 5 a 6 – 1af Georgie Hines, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr a 3ydd Alecia Gibbs, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Pypedau (Gwaith Grwp) Bl. 3 a 4 – 1af Grwp Ffynnonbedr, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Pypedau (Gwaith Grwp) Bl. 5 a 6 – 1af Grwp Y Dderi, Ysgol Gynradd Y Dderi; Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 7 ac 8 – 3ydd Catrin Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2D Tecstilau Bl.

2 ac iau – 2il Leah Howden, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 2D Tecstilau Bl. 3 a 4 – 1af Rhian Griffiths, Ysgol Gynradd Y Dderi; 2D Tecstilau Bl. 5 a 6 – 1af Eifion Edgell, Ysgol Gynradd Y Dderi a 2il Niamh Houghton, Ysgol Gynradd Y Dderi; 3D Tecstilau Bl. 3 a 4 – 2il Sophie Miller, Ysgol Gynradd Y Dderi; 3D Tecstilau Bl. 5 a 6 - 1af Esme Freeman, Ysgol Gynradd Y Dderi; Gwau/Crosio Bl. 3 a 4 – 1af Jennifer Studman-Badillo, Ysgol Gynradd Y Dderi; Gwau/Crosio Bl. 5 a 6 – 1af Katrina Bruce, Ysgol Gynradd Y Dderi; Gwehyddu Bl. 2 ac iau – 1af Michaela Michelle, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gwehyddu Bl. 3 a 4 – 2il Owen Llyr Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr a 3ydd Megan Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Print Du a Gwyn Bl. 2 ac iau – 3ydd Seren Hay, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; Print Du a Gwyn Bl. 7, 8 a 9 – 1af Catrin Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Print Lliw Bl. 2 ac iau - Siriol Howard, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Printiau Du a Gwyn Bl. 2 ac iau – 2il Ffion Williams, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd a 3ydd Harri Williams, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Printiau Du a Gwyn Bl. 3 a 4 – 3ydd Rhys Bishop, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Printiau Lliw Bl. 3 a 4 – 3ydd Aaron McKay, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Printiau Lliw Bl. 7, 8, a 9 – 1af Catrin Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Gemwaith Bl. 2 ac iau - Nia Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gemwaith Bl. 3 a 4 - 1af Elan Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr a 3ydd Tegan Dunderdale, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Gemwaith Bl. 5 a 6 – 1af Megan Webb, Ysgol Gynradd Y Dderi a 3ydd Sally Rees, Ysgol Gynradd Y Dderi; Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau – 1af Joseph Gregg, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6 – 2il Osian Jones, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; Creu Artefact Bl. 2 ac iau – 1af Grwp Brynmor, Ysgol Gynradd Y Dderi; Creu Artefact Bl. 10 ac 11 – 2il Dewi Uridge, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a 3ydd Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; Creu Artefact Bl.12 a dan 19 oed – 2il Fflur Jones, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a 3ydd Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; CAD Bl. 12 a dan 19 oed – 1af Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; CAD / CAM Bl. 7-9 - 1af Gwennan Holt, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

CROESO MAWR I EISTEDDFOD ABERTAWE A'R FRO 2011

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe a'r Fro ar y gorwel a hanner tymor yr haf yn agosau. Mae croeso cynnes iawn yn eich aros yn Abertawe ac arlwy wych o gyngherddau gyda'r nos a'r Maes y fwrwm o weithgareddau i bob oed.

I brynu tocynnau ar gyfer yr Eisteddfod a'r sioeau nos ewch i wefan yr Urdd, www.urdd.org/eisteddfod neu ffoniwch 0845 257 1639.

Nos Sul 29 Mai am 20:00 - Cyngerdd Agoriadol yn y Pafiliwn, Joio da'r Jacs gyda : Alex Jones, John Owen Jones, Enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Elgan Llyr Thomas, Dawnsyr Talog, Ysgol Gerdd Mark Jermin a llawer mwy. Tocynnau : £12 a £10

Nos Lun 30 Mai am 18:30 - Cystadleuaeth y Gan Actol i Ysgolion Cynradd yn y Pafiliwn. Tocynnau : £8 a £6

Nos Fawrth 31 Mai a Nos Fercher 1 Mehefin am 20:00 - Sioe Ysgolion Cynradd yr ardal, 'Melltith yr Helfeshia'. Cynhyrchiad gan Gwmni Theatr Na N'Og yn seiliedig ar hanes llongddrylliad yr Helfeshia ar Draeth Rhossili yn 1887. Tocynnau : £12 a £10

Nos Wener 3 Mehefin am 18:30 - Cystadleuaeth y Cerddorfeydd yn y pafiliwn. Tocynnau: £6

Dydd Sul 5 Mehefin am 11:00 - Cymanfa Ganu yn y Pafiliwn. Tocynnau: £6

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, "Mae croeso mawr yn eich aros yn Abertawe a'r Fro a'r Eisteddfod eleni yn argoeli'n un arbennig iawn. O'r Cyngerdd Agoriadol, gyda pherfformiadau sy'n siwr o godi'r to gan John Owen Jones, sydd newydd fwynhau cyfnod llwyddiannus gyda sioe i ddathlu chwarter canrif o Les Misérables i'r sioeau llawn asbri a gaiff eu perfformio gan blant ysgolion lleol. Bydd hon yn wyl i'w chofio."



Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

01570 423135
07811917799 /
07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Llangybi a Betws



Plant Ysgol y Dderi a ddaeth i'r brig yng nghystadleuthau Celf a Chrefft yr Urdd dros Geredigion. Cafwyd deuddeg gwobr gyntaf, chwech ail a thri trydydd. Mae'r gwaith buddugol yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe.

Ysgol y Dderi

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol ar Fawrth y 1af. Braf oedd gweld y plant wedi gwisgo'n draddodiadol ac yn gwneud eu gorau glas mewn cystadleuthau canu, llefaru, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth a chelf.



Llongyfarchiadau i Ashley Squire, blwyddyn 5 ar ennill y gadair am ei stori 'Y Neges' ac i aelodau tŷ Teifi a ddaeth i'r brig. Diolch o galon i'r Parchedig Goronwy Evans a Mrs Betty Evans am eu gwaith yn beimiadu. Cafwyd diwrnod da gyda naws arbennig.

Roedd yr ysgol yn llawn lliw a bwrllwm ar ddiwrnod y llyfr eleni, gyda'r plant wedi gwisgo fel cymeriadau allan o lyfrau. Daeth y plant lleiaf â'i hoff llyfrau i'r ysgol i rannu a darganfyddwyd bod un teulu o blant yn perthyn i'r nofelwraig enwog Jane Austen!

Hefyd fel rhan o weithgareddau diwrnod y llyfr, aeth adran y Cyfnod Sylfaen i Bentre Bach i fwynhau gweithgareddau niferus ar lyfrau. Cafwyd stori gan Sali Mali, Bili Bom Bom, Siani Flewog a Bwgan Brain, a chyfle i gwrdd â chymeriad newydd o'r enw Gwen Gwahadden. Thema'r diwrnod oedd Pentre Bach yn troi'n wyrdd a braf oedd gweld cynifer o'r plant wedi gwisgo gan ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. Llongyfarchiadau i Mabli Cutler ar ennill y wobwr am y wisg orau ac i'r plant i gyd am ennill y wobwr am yr ysgol orau.

Mae Miss Bethan ein gweinyddes feithrin a chylch mam a'i phlentyn 'Y Wiwerod Bach', yn gweithio ar gynllun Mathemateg a Chwarae. Mae'r plant bach wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y gweithgareddau.

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yng nghystadleuthau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd eleni. Cafwyd deuddeg wobwr gyntaf, chwech ail a thri trydydd. Diolch yn arbennig i bawb a fu'n gweithio'n galed i sbarduno a chynorthwyo'r plant. Pob hwyl yn y rownd nesaf!

Cafwyd diwrnod arbennig o gystadlu yn Eisteddfod Gylch Llanbed eleni eto. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu ac yn arbennig i Sally Rees a ddaeth yn 3ydd yn y dawnsio disgo unigol, i'r parti unsain daeth yn 2il, y grŵp dawnsio creadigol daeth yn 2il, y grŵp dawnsio disgo daeth yn 3ydd ac i blant blwyddyn 3 a 4 a ddaeth yn 1af yn y gystadleuthau dawnsio gwerin. Pob hwyl iddynt hwy wrth iddynt fynd ymlaen i gynrychioli cylch Llanbed yn yr eisteddfod ddawns. Diolch i bawb bu'n dysgu'r plant ar gyfer yr eisteddfod.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol o Gawl a Chân yn yr ysgol ar Fawrth yr 22ain. Mrs Deborah Jones, Llanfair Fach oedd llywydd y noson, mae Deborah yn dysgu Cymraeg i oedolion yn yr ysgol a chafwyd araith bwrpasol iawn ganddi. Diolch iddi hi a'i gŵr Dai am eu cyfraniad hael tuag at gronfa'r ysgol. Diolch i'r plant a ddaeth ynghyd i berfformio darnau'r eisteddfod i'r gynulleidfa. Diolch hefyd i ffrindiau'r ysgol a gyfranodd mewn dulliau gwahanol i wneud y noson yn llwyddiant ac i'r staff bu'n brysur yn gweini'r cawl a danteithion.

Llongyfarchiadau i blant Cyfnod Allweddol 2 a fu'n cystadlu yng nghystadleuthau trawsgwlad cylch Llanbed. Daeth nifer ohonynt o fewn y deg cyntaf felly ymlaen â nhw i'r rownd nesaf. Da iawn blant.

Cofnodwyd diwrnod

gwyddoniaeth yn yr ysgol gyda chymor XLWales. Trefnwyd gweithgareddau addas ar gyfer plant yr ysgol i gyd, gan Mr Eifion Collins. Roedd pawb wrth eu bodd yn arbrofi a danrganfod.

Gyda dyfodiad y Gwanwyn a'r tywydd yn gwella yr ydym wedi bod cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau awyr agored yn ein coedlan. Aeth blwyddyn 2 i goginio crempogau yn y ffwrn awyr agored, tra bod blwyddyn 5 a 6 yn coginio pítsa yno. Mae'r plant lleiaf wedi bod yn mwynhau gweithgareddau Ysgol Y Goedwig tra'n dysgu am natur.

Cafwyd amser bendigedig gan blant y Meithrin a Derbyn, a'r Wiwerod Bach yn Fferm Ffantasi, Llanrhystud. Cafwyd croeso twymgalon yno a chyfle i'r plant i fwydo wyn swci, trafod cwningod ac i ddysgu am fywyd y fferm. Roedd yr haul yn gwenu'n braf a phob un yn mwynhau'r profiadau amrywiol.

Diolch i Mr Roger Thomas o Fyddin Yr Iachawdwriaeth a ddaeth i gynnal gwasanaeth arbennig gyda'r ysgol gyfan.

Bydd yr ysgol yn casglu dillad oedolion a phlant, dillad gwely, llenni, esgidiau, teganau medal, gwregysau a bagiau llaw fel rhan o gynllun 'Bags 2 School'. Byddant yn cael eu casglu ar Fehefin 14eg, ond mae croeso i chi ddanfôn bagiau o eitemau unrhywbryd cyn hynny i'r ysgol. Os ydych am i ni gaslu bagiau wrthych rhwch alwad i ni yn yr ysgol ar 01570 493 424. Diolch.

Rydym yn cynnal ocsiwn addewidion yng Nghlwb Rygbi Llanbed ar nos Wener, 8fed o Ebrill. Bydd y noson yn cychwyn am 6 o'r gloch gyda barbeciw a disgo i'r plant yna'n dilyn bydd yr ocsiwn. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad y fro a Mr Geraint Davies, Tegfan a'r teulu oll yn ei profedigaeth ar farwolaeth ei modryb yn ddiweddar.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i Mr Bill Pinkstone a Mr John Pugh – y ddau wedi bod mewn ysbyty yn ddiweddar ond yn gwella erbyn hyn.

Maesyffynnon

Croesawyd pawb gan y Llywydd Sally Davies i ddathlu Gŵyl Ddewi eleni eto yn y modd arferol. Traddodwyd y fendith gan y Parch Elwyn Jenkins. Y gŵr gwadd oedd y Parch Dyfrig Lloyd, ac fe gawsom araith ddiddorol iawn ein Nawdd Sant – rhai ffeithiau nad ydynt yn hysbys iawn i'r cyhoedd. Talwyd

pleidlais o ddiolch wresog iddo gan y Llywydd am ein diddori am orig bleserus iawn. Dymunwyd iddo pob llwyddiant ac hapusrwydd yn ei Eglwys newydd yng Nghaerdydd.

Merched y Wawr

Fe ddathlwyd Gŵyl ein Nawdd Sant mewn noswaith draddodiadol o Gawl a Phwddin yn y Pantri. Cafwyd gwledd fendigedig i fwyta ac araith ddiddorol iawn gan y Parch Dafydd Aeron. Bu yn egluro y gwahanol risiau sydd yn rhaid eu cyflawni cyn cael eich hurddo yn offeiriad. Mae'n system hir a chymleth sydd eisiau dyfal barhad ac ymroddiad llwyr i'r weinidogaeth. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gan Irene Lewis i'r gŵr gwadd am yr hanes ac i Delyth am y bwyd hyfryd. Rhoddwyd y Raffl gan Margaret Jones, Denise Hicks a Glenys Lloyd ac fe'i henillwyd gan Margaret Jones, Gwyneth a Mary Jones. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 20fed yn Ysgol y Dderi, pryd y disgwylir Megan Richards ein hannerch.

C.F.F.I. y Dderi

Yn ystod y mis rydyn wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu mewn gwahanol gystadleuthau yn y Sir. Yn gyntaf roedden ni yn cymeryd rhan yng Nghystadleuthau Hanner Awr Adloniant Ceredigion yn Theatr Felinfach. Ar ôl wythnosau o ymarfer daeth amser i ni berfformio 'Yr Ardd' sef stori am 7 o gorachod yn mwynhau yn yr ardd. Hoffwn ddiolch i Guto am ysgrifennu'r script ac i Elin am ysgrifennu geiriau'r caneuon. Hefyd hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch i Gwen, Owena, Teleri, Deina, Ann, Lois a Sally am roi o'u hamser i'n helpu ni i wneud y sioe. Diolch yn fawr i chi gyd! Hoffwn longyfarch Rhodri Pugh-Davies, Gethin Morgan ac Aron Dafydd ar ennill y wobwr am yr Actor Gorau o dan 16 oed. Da iawn chi fechgyn! Dyna noson llawn hwyl a sbri yn wir.

Wythnos ar ôl hynny cawsom wahoddiad i berfformio ein hanner awr adloniant eto yng nghwmni Clwb Pontsian a Chlwb Felinfach. Hoffwn ddiolch i Bontsian am y gwahoddiad hwn. Hefyd hoffwn ddiolch i Alwen am ddod i siarad a ni am ei thaith i Kenya. Noson ddiddorol iawn.

Yna bûm yn cystadlu yng Nghystadleuthau Chwaraeon Dan do. Da iawn i bawb wnaeth gymeryd rhan ar ran y clwb ond llongyfarchiadau mawr i'r tim Tip – it ar ennill y gystadleuthau. Aelodau'r tim oedd Jac Evans, Elin Gwyther a Kelly Jones. Hefyd llongyfarchiadau i Sioned Douglas ac Aron Dafydd am ddod yn 3ydd yn y Tennis Bwrdd Dwbl, Beca Creamer am ddod yn 3ydd yn y Dominos a Delyth Evans am ddod yn 3ydd yn y drafft. Dyma noswaith hwylus arall o gystadlu a chymdeithasu.

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr

Dathlwyd Gŵyl ein Nawddsant yn Ysgol Ffynnonbedr ar ffurf Eisteddfod gyda phob disgybl o'r lleiaf hyd yr hynaf yn cymryd rhan. Bu'r plant yn canu, llefaru, dawnio, ysgrifennu storiâu, arlunio a gwneud llawysgrifen a Thechnoleg. Beirniadwyd y cyfan gan staff a disgyblion y sector Uwchradd eleni - Storiâu Cymraeg - Delor James a Hedydd Thomas, Storiâu Saesneg - Cath Boulton Richards, Celf- Liz Harding, Llawysgrifen- y chweched dosbarth. Hyfryd oedd cael cwmni Mrs Heledd James i feirniadu'r corau a'r dawnio. Gofynnwyd i ddisgyblion blwyddyn 2 i ysgrifennu stori ar y teitl, "Dydd Sadwrn" a chynhaliwyd seremoni cadeirio i wobrwyo'r buddugwyr:- Blwyddyn 2 Dwynwen 1af Alex Williams, 2ail Filip Poczatek 3ydd Joseph Gregg Blwyddyn 2 Aeron:- 1af Sioned Davies 2ail Sam Jenkins 3ydd Zoe Jarman Davies. Arweiniwyd y corau gan Nia Beca Jones o dy Pedr (cyntaf), Joseph Gregg o dy Dewi(ail) a Zoe Jarman Davies o dy Steffan (trydydd). Ar ddiwedd Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen Dewi oedd ar y brig, Pedr yn yr ail safle a Steffan yn drydydd. Capteiniaid y Cyfnod Sylfaen oedd:- Lexie Howden a Joseph Gregg (Dewi), Siriol Howard a Skye Jones (Pedr), Mia Hibbert ac Al Attala (Steffan).



Yr un mor fyrlymus oedd y cystadlu yn Eisteddfod yr Adran Iau. Gofynnwyd i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 i ysgrifennu stori yn dwyn y teitl "Yn y bocs" a blynyddoedd 5 a 6 "Neges" ac fe'u gwobrwwyd fel a ganlyn yn Seremoni'r Cadeirio:-Blwyddyn 3 Dulas:- 1af Elan Jones 2ail Lauren Hill 3ydd Kyle Hughes Blwyddyn 3 Branwen:- 1af Ruth Davies 2ail Holly Keane 3ydd Lian Evans Blwyddyn 4 Creuddyn:- 1af Lucy Hill 2ail Matt Small 3ydd Owen Llyr Davies Blwyddyn 4 Bran:- 1af Theo Teasdale, 2ail Jennifer Hoe 3ydd Asyrfia Azman Blwyddyn 5 Cothi:- 1af Osian Jones, 2ail Charlotte Saunders 3ydd Aled John a Grace Page Blwyddyn 5 Llew:- 1af Toby Rumble 2ail Menna Kime 3ydd Alecia Gibbs Blwyddyn 6 Grannell:- 1af Elen Lewis 2ail Alis Williams 3ydd Rebeca Heath Blwyddyn 6 Arthur:- 1af Helen Casiday 2ail Olga Nechyparenka 3ydd Christina Smith. Cipiwyd y darian am y dawnio disgo gan Steffan gyda Pedr yn ail a Dewi'n drydydd. Arweiniwyd y corau gan Daniel Lewis o Steffan (cyntaf), Daniel Davies o Dewi (ail) ac Alis Williams o Pedr (trydydd). Cyflwynodd Heledd James y cwpanau i'r corau buddugol a Rhian Evans Cadeirydd y Llywodraethwyr a gyflwynodd y cwpanau i gapteiniaid ac is gapteiniaid y tai:-Capteiniaid Pedr (cyntaf) - Jordan Evans a Thomas Willoughby Is-gapteiniaid Pedr- Cerys Lewis a Shaun Morgans Capteiniaid Steffan(ail) - Ffion Green a Tom Sawyer Is-gapteiniaid Steffan- Emily Reader a Daniel Lewis Capteiniaid Dewi (trydydd) - Lionie Mason a Robert Jenkins Is-gapteiniaid Dewi - Sandra Mikalska a Rhys Jones. Diolchwyd i'r plant am wneud eu gwaith mor raenus ac i bob aelod o staff am eu paratodau manwl. Cafwyd diwrnod i'w gofio.



Daeth llwyddiant i dîm rygbi'r ysgol wrth iddynt gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd. Llongyfarchiadau i'r tîm

:- Ciaran O'Connor, Harry Miller, Daniel Davies, Daniel Lewis, Tom Sawyer, Ben Roach, Thomas Willoughby, Shaun Morgans, Robert Jenkins, Alfie Newton, Rhys Jones, Sam Brammell, Tomos Jones, Osian Jones, Iestyn Evans, Morgan James ac i'r hyfforddwyr Geraint Thomas a Heulyn Roderick a dymuniadau gorau yn y rownd nesaf a gynhelir ym mis Mai yn Llanelli.



Cafodd yr ysgol wyth gwobr gyntaf, wyth ail wobwr a naw trydedd wobwr yn Eisteddfod Gelf a Chrefft yr Urdd ar lefel Sirol. Bydd gwaith y buddugwyr i'w gweld ym mhabeall Gelf a Chrefft yr Urdd yn Abertawe. Llongyfarchiadau i'r canlynol:- Cyntaf:-Shannon Walton Cropp(Gwaith creadigol 2D), Nia Beca Jones (Gemwaith bl 2 ac iau), Michaela Michelle (Gwehyddu bl 2 ac iau) Joseph Gregg (Technoleg bl 2 ac iau) Grwp Leela Attala Gibson (Pypedau bl 3 a 4) Elan Jones (gemwaith bl 3 a 4), Robert Slawkowski (Gwaith creadigol 2D)Georgie Hines (Pyped bl 5 a 6) Ail -Zoe Jarman Davies (pyped bl 2 ac iau) Leah Howden (tecstilau) Nathan Charles Davies (gwaith creadigol), Sioned Fflur Davies (Ffotograffeg/ Graffeg Cyfrifiadurol) Harri Williams (gwaith creadigol3D) Owen Llyr Davies (Gwehyddu 3 a 4) Osian Jones (Technoleg 5 a 6), Lois Price (Gwaith creadigol 3D)Trydydd-Siriol Howard (print lliw) Harri Williams (Printiau du a gwyn), Tegan Dunderdale (gemwaith 3 a 4) Rhys Bishop (printiau du a gwyn) Megan Jones (gwehyddu 3 a 4) Lauren Hill (pyped 3 a 4) Aaron Mckay (printiau lliw 3 a 4) Daniel Lewis (gwaith creadigol 5 a 6) Alecia Gibbs (pyped 5 a 6) Diolch i'r plant, rhieni a staff am eu gwaith. Diolch yn arbennig i B Thomas a Ll Jones am gydlynw'r gwaith ac hefyd i Marlene Davies am ei gwaith yn y clwb ffotograffiaeth.

Bu deugain o ddisgyblion yr ysgol yn rhedeg yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Cylch ar ddydd Gwener Mawrth 11 gyda tri deg dau ohonynt yn gorffen yn y deg cyntaf. Llongyfarchiadau i bob un ac yn arbennig i'r canlynol:-Cyntaf:- Ruth Davies (merched blwyddyn 3) Bryn Jones (bechgyn blwyddyn 4) Iestyn Evans (bechgyn blwyddyn 5) Tanwen Owens (merched blwyddyn 6) Ail:- Lian Evans (bechgyn blwyddyn 3) Iestyn Owens (bechgyn blwyddyn 4) Chelsea Jenkins (merched blwyddyn 4) Grace Page (merched blwyddyn 5) Sam Brammell (bechgyn blwyddyn 5) Daniel Lewis (bechgyn blwyddyn 6) Ffion Green (merched blwyddyn 6)Trydydd:- Jac Williams (bechgyn blwyddyn 3) Jennifer Hoe (merched blwyddyn 4) Ryan Mc Mullan (bechgyn blwyddyn 6) Diolch i W John am drefnu'r achlysur a'r plant ac i C Davies ac A Jones am eu cymorth ar y diwrnod.

Ar ddiwrnod y Trwyn Coch fe benderfynodd y Cyngor Ysgol y dylai pawb wisgo dillad coch a chafwyd cystadlaethau jôcs. Codwyd swm o £260.85 tuag at yr achos teilwng hwn.

Cafwyd dathlu mawr yn y dosbarth Meithrin /Derbyn gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan mewn seremoni briodasol gan mai "P" am priodas oedd llythyren yr wythnos. Bu'r disgyblion yn mwynhau canu, dawnio a bwyta cacen yn ystod yr achlysur ac roedd pawb yn edrych yn smart iawn. Bu ymwelydd pwysig yn yr ysgol sef oen bach swci Owain Jacob. Cafodd y disgyblion hwyl yn gofalu amdano ac yn ei fwydo. Roedd Owain wrth ei fodd yn rhoi cyngor ac yn siarad am yr anifeiliaid ar y fferm.

Bu disgyblion yr ysgol yn ffodus iawn i gael gwyllo dwy sioe wych sef "O gam i gam" a "Llyncu Geiriau" a berfformiwyd gan gwmni theatr Arad Goch. Cafwyd boddhad mawr yn gwyllo'r sioeau a phob disgybl yn yr ysgol wedi elwa'n fawr o'r profiad.

Derbyniodd disgyblion blynyddoedd 2 - 6 Feibl yr un yn dilyn cyfres o wersi gan Julie Hawkins o'r "Bible Explorers". Diolch i'r Parchedig Matthew Hill am ddod i mewn i'r ysgol i wneud gwasanaeth ac i gyflwyno'r Beiblau ar ddiwrnod y llyfr.

Bu tair aelod o staff allan yn Ffrainc yn ymweld ag ysgolion yno ac yn profi diwylliant y wlad fel rhan o gysylltiadau Ewropeaidd yr Ysgol.

Ar ddiwrnod Masnach Deg bu disgyblion yr ysgol yn lliwio baneri ac yn coginio ar y cyd gyda disgyblion o'r sector Uwchradd. Cynhaliwyd nifer o

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

gystadlaethau amrywiol hefyd a diolch i Wenna Davies am drefnu.



Rydym wedi bod yn ffodus i gael cwmni Celeste o Batagonia yn yr ysgol gyda ni. Mae hi wedi treulio mis yn yr ysgol yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod ei chyfnod yma bu hi hefyd yn trafod gyda'r plant ynglŷn â Phatagonia a chafodd disgyblion yr ysgol gyfle i ofyn cwestiynau iddi.

Daeth llwyddiant ysgubol i ran yr ysgol yn Eisteddfod gylch yr urdd. Derbyniwyd deuddeg gwobr gyntaf yn unigol, pump ail wobwr yn unigol a phedwar trydydd gwobr. Yn ogystal daeth y grwpiau canlynol i'r brig yn derbyn y wobwr gyntaf sef ymgom i ddysgwyr, llefaru i ddysgwyr, côr yr ysgol, parti deulais, dawnsio cyfrwng cymysg, dawnsio disgo, dawnsio gwerin blynyddoedd 5 a 6 a'r dawnsio gwerin i flynyddoedd 3 a 4 yn derbyn yr ail wobwr. Dyma'r canlyniadau unigol:- 1af Unawd 5 a 6 - Charlotte Saunders, Llefaru 3 a 4 - Elan Jones, Unawd blwyddyn 2 - Sioned Davies Unawd 3 a 4 - Elan Jones Llefaru i ddysgwyr - Joseph Gregg, Deuawd - Charlotte a Joseph Saunders, Llefaru blwyddyn 2 - Nia Beca Jones, Llefaru unigol i ddysgwyr 3/4 - Aisvariay Sridar Unawd Cerdd Dant blwyddyn 5 a 6 - Charlotte Saunders, Alaw Werin - Elan Jones, Dawnsio Disgo unigol - Charlotte Saunders 2ail Unawd 3 a 4 - Joseph Saunders Llefaru i ddysgwyr bl 1 a 2 - Daniel Farr, Unawd Cerdd Dant bl 2 ac iau - Nia Beca Jones, Llefaru unigol i ddysgwyr 3 a 4 - Adrian Miesik Alaw Werin - Charlotte Saunders 3ydd Unawd Cerdd Dant 3 a 4 - Megan Jones, Llefaru i ddysgwyr 3 a 4 - Austin Thomas, Llefaru bl 2 ac iau - Sioned Davies, Llefaru i ddysgwyr bl 3 a 4 Phoebe Cory Wrighton, Llefaru blynyddoedd 5 a 6 Tomos Jones. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi'r disgyblion a da iawn i bob plentyn a fu'n cystadlu yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan a diolch i Elin a staff Ysgol Garreg Hirfaen am drefnu'r eisteddfod mor hwylus.

Yr Ysgol Gyfun

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch eleni. Dyma'r canlyniadau:- Unawd Merched Bl 7-9 Lowri Elen (1af), Lleucu Aeron (2il), Meinir Davies (3ydd); Llefaru Unigol Bl 7-9 Lowri Elen (1af), Betsan Jones (2il), Lleucu Aeron (3ydd); Alaw Werin Unigol B7-9 Meirion Thomas (1af), Lowri Elen (2il), Lleucu Aeron (3ydd); Unawd Bechgyn Bl 7-9 Meirion Thomas (1af); Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed Sian Elin (1af), Gwawr Hatcher (2il), Elliw Dafydd (3ydd); Unawd Cerdd Dant Bl 7-9 Meirion Thomas (1af), Lowri Elen (2il); Alaw Werin Bl 10 a dan 19 oed Aron Dafydd (1af), Gwawr Hatcher (2il), Dewi Uridge (3ydd); Unawd Piano Bl 7-9 Meinir Davies (1af); Unawd Merched Bl 10 a dan 19 oed Gwawr Hatcher (1af); Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19 oed Ianto Jones (1af), Dewi Uridge (2il); Unawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed Gwawr Hatcher (1af); Monolog Bl 10 a dan 19 oed Elliw Dafydd (1af), Sian Elin (2il); Unawd o Sioe Gerdd Bl 10 a dan 19 oed Elliw Dafydd (1af); Grŵp llefaru Bl 7-9 1af.

Canlyniadau Celf a Dylunio'r Urdd - Rhanbarth Ceredigion: Creu Arteffact (Bl 10 ac 11) Carwyn Davies 3ydd; Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol (Bl 7 ac 8) Catrin Davies 1af; Print du a gwyn (Bl 7, 8 a 9) Catrin Davies 1af; Printiau lliw (Bl 7, 8 a 9) Catrin Davies 1af; Argraffu/Addurno ar Ffabrig (Bl 7 ac 8) Catrin Davies 3ydd; Creu Arteffact (Bl 10 ac 11) Dewi Uridge 2il; Creu Arteffact Fflur Jones 2il; Cywaith 3D (Canolfan y Bont) (dan 25) Grŵp Catrin 1af; Cywaith 3D (Canolfan y Bont) (dan 25 oed) Grŵp Dylan 2il; Cywaith 2D (Canolfan y Bont) (dan 25 oed) 1af; Cywaith 3D Grŵp Michael Hancock (dan 25 oed) 1af; CAD/CAM (Bl 7, 8 a 9) Gwennan Holt 1af; CAD (Bl 12 ac o dan 19 oed) Lowri Pugh Davies 1af; Creu Arteffact (Bl 12 ac o dan 19 oed) Lowri Pugh Davies 1af; Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd a da iawn i bawb a gymerodd rhan.

Ar fore Gwener 4ydd o Fawrth, cynhaliwyd bore coffi yn y neuadd er mwyn codi arian tuag at elusen leol 'Cruise'. Mae'r elusen yn cynnig

gofal mewn galar i'r rhai yng Ngheredigion sydd wedi colli anwyliad. O ganlyniad i waith caled cogyddion y fro, cafwyd llw o gacennau blasus i'w gwerthu gan ddisgyblion 7 Dewi.

Braf hefyd oedd gweld yr athrawon yn mwynhau y danteithion melys tra'n ymlacio yng nghwmni disgyblion 13 Dewi. Diolch i'r rhai a gyfrannodd wobrau i'r raffl a llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd. Yn sgîl ymdrechion Mrs James, 13 Dewi a 7 Dewi roedd y bore yn llwyddiant ysgubol. Diolch yn ddiffuant i bawb am gyfrannu a chefnogi'r bore. Codwyd cyfanswm anhygoel o £489,20 ar gyfer yr achos teilwng hwn.

Ar Fedi'r 10fed bu grŵpiau TGAU Cerdd yn Aberaeron yn gwrando ar "Piano Circus" - ensemble o 6 piano ac yn derbyn syniadau ar gyfer Cystadleuaeth Cyfansoddwr Ifanc Dyfed. Derbyniwyd 'tips' hefyd gan y cyfansoddwr gwadd am eleni - Peter Reynolds. Roedd yn sesiwn ddiddorol iawn gyda holl ysgolion Ceredigion yn bresennol ac yr oedd clywed 6 piano yn perfformio amrywiaeth o ddarnau yn brofiad newydd i bawb.

Mae'r canlynol wedi bod yn cwrdd bob nos Wener yn ysgol Aberaeron fel aelodau o'r Band Chwyth a Cherddorfa Llynnol Ceredigion. Band Chwyth Joshua Yardley - Cornet; Cerddorfa Llynnol Jonah Choi - Ffidil, Arianna Morris - Sielo, Ceri Pickett - Ffliwt.

Cyn Nadolig bu yna ymarferion i'r corau canlynol, ond yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r cyngerdd oherwydd yr eira. Gobeithir ail-drefnu cyngerdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dyma'r disgyblion a fynychodd yr ymarferion:- Côr S.A.T.B. Ceredigion: Bl. 13 Elliw Dafydd, Lowri Pugh Davies; Bl.12 Bethan Hardy; Bl.11 Amelia Davies, Hannah Roberts, Nicola Williams; Bl.10 Gwawr Hatcher a Meleri Davies. Côr Bechgyn Hŷn Ceredigion: Bl.11 Rhydian Jenkins, Josh Eberlein, Josh Lloyd, Rhodri Pugh Davies; Bl.10 Dewi Uridge, Daniel Hage, Marty Evans, Tom Oliver, Aron Dafydd, Sam Garside a Jack Parry.

Llongyfarchiadau i'r 22 o gantorion ifanc o Sir Gaerfyrddin â ymunodd â dros 200 o gantorion ifanc eraill o bob cwr o Gymru i berfformio gyda Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC ar ddydd Gŵyl Dewi. Ymunodd y corws enfawr o dros 300 gyda thri unawdydd proffesiynol, côr o blant cynradd a'r gerddorfa i roi perfformiad rhagorol o 'Carmina Burana' gan Carl Orff. Cafodd y cyngerdd, oedd hefyd yn cynnwys y pianydd Llŷr Williams, ei ddarlledu'n fyw ar BBC Radio 3. Roedd Amelia Davies o flwyddyn 11 yn aelod o'r côr yma.

Llongyfarchiadau i Gwawr Hatcher o flwyddyn 10 sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o gôr y tair sir yn dilyn clyweliadau yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi yn yr ymarferion a'r cyngherddau.

Mae Hannah Roberts o flwyddyn 11 wedi cael ei dewis i fod yn eilydd i gerddorfa'r tair sir yn dilyn clyweliad yn ddiweddar yn chwarae'r ffidil. Dymuniadau gorau iddi yn yr ymarferion a'r cyngherddau.

Bu'r canlynol ar gwrs yn Llangrannog fel aelodau o fand chwyth a cherddorfa'r sir dros wyliau hanner tymor. Yn dilyn hyn bu yna gyngerdd yn y neuadd fawr yn Aberystwyth:- Catrin Langford - bl 13 - ffliwt, Gareth Davies - bl 12 - sacsaffôn, Joshua Yardy - bl 8 - cornet, Max Zinn - bl 8 - trombone. Da iawn chi am eich ymroddiad.

Llongyfarchiadau gwresog i Caitlin Page a Ffion Quan am wneud yn arbennig o dda ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Cymru yn Aberhonddu. Daeth Caitlin yn 14eg a Ffion yn 21ain.

Llanwnnen



Bu holl ddisgyblion Ysgol Llanwnnen ar drip addysgiadol i Fferm Bwlchwywern Uchaf, Llwyn-y-groes ar ddiwrnod braf iawn o wanwyn. Cafwyd llawer o hwyl yn crwydro o gwmpas y tir ac yn ymweld â'r holl greaduriaid y fferm. Cafwyd cyfle i weld sut oeddent yn gwneud eu caws unigryw, 'Caws yr Hafod' a chyfle i flasau peth.

Yn y Gegin gyda Gareth



Pwdin Perffaith i'r Pasg

Mae yna flas a nawys y Gwanwyn yn y gegin, a'r ffordd orau i fwynhau a dathlu'r Pasg eleni fydd drwy 'siocled'. Boed yn wly siocled, darn o siocled neu pwdin siocled. Mae'r siopau yn llawn siocled, felly esgus perffaith i chithau fwynhau'r cynrych. Mae rhai pobl wrth eu bodd â siocled golau melyn, ac eraill yn hoffi'r un tywyll gyda'r blas cyfoethog. Pa un i chi? Dyma ddau rysait y medwrch eu paratoi nifer o weithiau cyn y Pasg, - Y 'Browni' – siocled yn bwdin neu'n gwmni i de neu goffi. Ac yna wedyn 'Pwdin Sul y Pasg'. 'Plisgyn wy siocled' a saws siocled yn y canol.

Felly ymlaen a'r 'Sioe Siocled!'

Pasg hapus,

Gareth.

'Browni' – Siocled Cegin Gareth.

Cynhwysion

400gm 14oz Siocled o ansawdd da
200gm 7oz Menyn
225gm 8oz Siwgr brown meddal
1 llond llwy de o fanila
150gm 5oz o gnau pecan
25gm 1oz o coco
75gm 3oz o flawd codi
3 wly
Ychydig o goco fel addurn



Dull

1. Rhewch y siocled a'r menyfyn mewn powlen a gosodwch dros ddŵr sy'n berwi i doddi.
2. Tynnwch o'r gwres a chymysgwch y siwgr, fanila, cnau, coco, y blawd a'r wyau ynddo
3. Gosodwch mewn tun pobi 20 x 20 x 5cm wedi'i leinio â phapur gwrthsaim. Rhewch yn y ffwrn am 1 awr a ¼ ar wres 170°C; 325°F; Nwy 3 nes fod y cyfan wedi coginio ond ychydig yn feddal yn y canol.
4. Gadewch i oeri yn y tun am rhyw 2 awr. Sgaentiwch gyda'r coco a thorrrwch yn sgwariau. Mwynhewch gyda hufen iâ.

Pwdin Saws Siocled

Cynhwysion

100gm 3oz siocled (70% cocoa solid)
100gm 3oz menyfyn
2 wly
100gm o siwgr mân
25gm 1oz o flawd plaen
Ychydig o siwgr eisin



Dull

1. Irwch 4 dysgl ramakin a sgeitiwch gydag ychydig siwgr
2. Rhewch y siocled a'r menyfyn mewn powlen a thoddwch dros ddŵr berwedig. Gadewch i oeri. Cymysgwch yr wyau, siwgr, a'r blawd ac yna ychwanegwch y siocled. Rhannwch rhwng y pedair dysgl a'u gosod ar hambwrdd pobi.
3. Pobwch am 12 i 15 munud ar 200°C; 400°F; Nwy 6. Trowch ar blat ac addurnwch â siwgr eisin. Gweinwch gyda hufen.
(Bydd yna spwng o'r tu allan gyda saws siocled yn cuddio yn y canol.)

J Gwyn Williams



Saer ac Adeiladwr Profiadol

Wynarth, Cwmann
01570 423048
07980 207058

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Sul i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

MiS y PaPur NewYdd

Colofn Dylan Iorwerth

Y pethau bychan – gan Dewi (y llall)

Rhywbeth fel hyn oedd y stori.

Roedd yna ddyn wedi cwmpo oddi ar yr Wyddfa ond wedi llwyddo i ddal ei afael mewn cangen coeden hanner ffordd i lawr y clogwyn.

Dyna lle'r oedd o'n hongian, ei freichiau'n gwanhau a chwmp anferth o tano. Fe wnaeth y peth amlwg, a dechrau gweiddi, "Oes yna rywun yna?"

Yn y diwedd dyma lais mawr yn dod o'r awyr – llais Duw (cans ef oedd). Dyma'r llais mawr yn dweud wrth y dyn am ymddiried ynddo a gollwng ei hun ar y creigiau a sicrhau bywyd tragwyddol.

Dyma'r dyn yn aros am ychydig a meddwl. Yna mae'n gweiddi eto, "Oes yna rywun arall yna?"

Mewn capel y clywais i'r stori – capel yr Undodiaid yng Nghribyn a bod yn fanwl gywir, a'r adroddwr oedd Dewi, nid y sant ond y Pws.

Roedd y canwr a'r digrifwr yno i gymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig ddiwedd mis Mawrth – y Sul ola' cyn Dydd Ffwl Ebrill – ac i gael ei holi gan Euros Lewis. Y nod oedd chwerthin.

Ond mae'r stori'n dangos rhywbeth arall hefyd. Er mai jôc ydi hi, mae hi siwr o fod yn dweud llawer o wirionedd am deimladau llawer ohonon ni ynglyn â chrefydd.

A dyna'r pwynt. Mae straeon bychain, ysgafn, yn aml iawn yn gallu dweud llawn cymaint â'r straeon mawr, pwysig.

Roedd yna lond lle o straeon eraill hefyd, fel honno am y cyfarfod menywod yn y capel yn Abertawe ble'r oedd ei fam yn mynd.

Roedd y gweinidog wedi gofyn i'r chwirydd be oedd eu syniad nhw o Satan - ai ysbryd neu ddyn oedd o – ac roedd dwy wedi ateb yn bendant, am wahanol resymau, ei fod yn ysbryd.

Ond roedd un yn anghytuno. Dyn, meddai, a hynny'n gwbl bendant. Sut hynny? meddai'r gweinidog, sut oedd hi'n gallu bod mor sicr? A'r ateb yr un mor bendant: "Wi'n byw dag e!"

Roedd yna lawer o chwerthin yn yr oedfa y prynhawn hwnnw, ond roedd yna dwtsh difrifol hefyd wrth i Dewi Pws egluro fel yr oedd gorfodaeth i fynd i'r capel wedi gwneud iddo droi cefn ond ei fod bellach yn gweld rhyw fath o ysbryd ym mhobman ym myd natur.

Ac roedd ei ddisgrifiad o'i dad a'i fam yn llawn teimlad – fel yr oedd y ddau'n gwneud popeth allen nhw i helpu pobol o'u cwmpas. Roedd mam Dewi, Ray, allan yn y gymdogaeth mor aml fel bod ei gwr wedi ei chymharu i ddom ceffyl – "ar yr hewl trwy'r amser".

Y gân ola' i ni ei chanu yn y gwasanaeth oedd "Chwerthin" gan Jacob Dafis, un arall oedd yn ddigon dewr i gymysgu hiwmor a chrefydd. Yn ôl y disgrifiad swyddogol, dyw'r gân honno ddim yn emyn, ond mi ddylai fod.

Ymhlith pethau eraill, mae'n awgrymu cynnal cymanfaoedd chwerthin yn hytrach na rhai canu. Dychmygwch y peth – llond capel o bobol yn rowlio chwerthin am awr soled. Mi fyddai'n gwneud byd o les i ni i gyd.

Os ydech chi'n credu mewn duw, mi ddylai eich gwneud chi'n hapus. A hyd yn oed os ydech chi fel Dewi – neu fi o ran hynny – yn gweld rhyw fath o dduw ym mywyd ei hun, mi ddylai hynny eich gwneud chi'n hapus hefyd.

Un o'r pethau mwya' trawiadol yr ydw i wedi ei weld y gwanwyn yma ydi'r clwstwr o lili wen fach oedd yn y mymryn o forder o flaen y ty acw.

Ar yr olwg gyntaf, does dim byd eithriadol amdany'n nhw, heblaw fod y blodyn yn ddwbl. Ond dw i'n gwybod am eu hanes nhw.

Mi ddaethon nhw o ardd fy nhaid yn Glasbwl ger Machynlleth o leia' 50 mlynedd yn ôl ac wedyn, trwy ardd fy rhieni, yn Waunfawr, maen nhw wedi cyrraedd Llanwnnen.

Y pethau bach.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Gwledd o Adloniant C.Ff.I Sir Gâr 2011

Cynhaliwyd Cystadleuthau Hanner Awr Adloniant C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd San Pedr yn ystod wythnos Hanner tymor. Bu tri clwb ar ddeg yn cystadlu yn y Gymraeg.

C.Ff.I Dyffryn Cothi ddaeth i'r brig gyda'i perfformiad o 'Trafferth yn Tabernacl', C.Ff.I Llanllwni ddaeth yn 2ail gyda'i perfformiad o 'I golwg hi sy' waethaf' a C.Ff.I Cynwyl Elfed yn 3ydd gyda 'Saga'r Salwn. Llongyfarchiadau mawr i'r clybiau oll am berfformiadau gwyh.



Fe aeth y gwobrau am yr unigolion gorau i'r canlynol :- 18 oed neu o dan: Merch –Rhian Davies, Llanllwni, Bachgen- Owain Davies, Llanllwni. 26 oed neu o dan: Merch – Bethan Griffiths, Dyffryn Cothi, Bachgen – Aled Jones, Dyffryn Cothi. Cynhyrchydd gorau - Dyffryn Cothi.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n beirniad sef Eleri Owen Edwards am ei gwaith medrus dros y bedair noson. Diolch hefyd i bawb fu yn cynorthwyo yn ystod yr wythnos a diolch arbennig i Dilwyn a Tristan fu'n gweithio'n ddiwyd wrth y Golau â'r Sain.

Ar nos Fercher 9fed Mawrth cynhaliwyd cystadleuaeth Bowlio deg Mudiad Ffermyr Ifanc Sir Gâr lawr yn Canaston Bowl. Bu clybiau ar draws Sir Gâr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y sgôr uchaf.

C.Ff.I Cwmman daeth i'r brig yn yr adran Hŷn gyda Sioned Russell, Louise Jones, Aled Bowen a Carwyn Lewis yn y tîm, yn yr ail safle oedd Elfed Daniels, Aled Jones, Gethin Edwards ac Aled Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi ac yn 3ydd oedd Rob Rodenhurst, Daniel Richards, Sarah Clark a Stephanie Martin, C.Ff.I Llanboidy.

C.Ff.I Penybont oedd yn fuddugol yn yr adran Iau, a'r pedwar fuodd wrthi oedd Chris Richards, Deian Jones, Tomos Jameson, Carwyn Jones, yn yr ail safle oedd Michael Williams, Gethin Earles, Aled Jones a Owain Thomas o Glwb San Pedr ac yn 3ydd Aled Edwards, Steffan Jones, Gwenann Jones a Sophie Davies, C.Ff.I Dyffryn Tywi.

Llongyfarchiadau yn ogystal i Aled Bowen o Glwb Cwmman, Aled oedd gyda'r sgôr uchaf allan o'r holl gystadlwyd. Llongyfarchiadau mawr i'r tîmau buddugol a diolch i bawb a wnaeth gymeryd rhan.

Ceredigion

Am y 12 mis nesaf, ni'n dwy, Sara Downes, CFfI Llangeitho a Sioned Davies o GFfI Llanwenog, bydd yn dod a newyddion i chi. Diolch i Lowri a Megan, aelod hyn ac aelod iau 2010/11 am eu gwaith nhw llynedd.

Ar nos Wener, 4ydd o Fawrth cynhaliwyd dawns dewis swyddogion y sir yng Ngwesty Tyglyn Aeron.

Cyhoeddwyd mai Lowri Jones o glwb Caerwedros bydd Frenhines y sir a Llyr Jones o glwb Pontsian bydd y Ffarmwr Ifanc. Dewiswyd Enfys Hatcher,



Llanwenog, Eirian Williams, Felinfach, Esyllt Ellis-Jones, Llangwryfon a Mererid Davies, Pontsian yn forwynion. Llongyfarchiadau gwresog i'r swyddogion newydd a dymuniadau gorau ar gyfer eich blwyddyn. Cynhelir y rali eleni ar fferm Pantdefaid, Prengwyn o dan ofal clwb Pontsian ar y 28ain o Fai.

Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd rowndiau terfynol y gystadleuaeth hanner awr adloniant yn Theatr y Grand, Abertawe. Cafwyd perfformiadau Cymraeg a Saesneg yn ystod y penwythnos, yn ogystal â gweithdai creu gwisgoedd, colur ac ysgrifennu sgript. CFfI Llanwenog oedd yn cynrychioli Ceredigion yn y gystadleuaeth Hanner awr Adloniant a llongyfarchiadau mawr iddynt am ddod yn 3ydd mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Hefyd, yn ystod y penwythnos, cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer cystadleuaeth aelod hyn ac aelod iau'r flwyddyn a chyhoeddwyd taw Sara Downes oedd enillydd cystadleuaeth Aelod Hyn CFfI Cymru.

Enfys Evans, arweinydd a chyn-aelod o glwb Llanddeiniol yw Cadeirydd CFfI Cymru eleni, ac yn ôl yr arfer, mae'r cadeirydd yn dewis elusen i gefnogi. Dewis Enfys eleni yw 'Mind Cymru', elusen iechyd meddwl, ac er mwyn codi arian ar gyfer cronfa'r elusen penderfynodd Enfys, ynghyd a 4 cyn aelod o'r sir, gwneud naid parachute o awyren. Diolch i bawb a chefnogwyd ymgyrch Enfys a chasglwyd swm o dros £3000 ar gyfer yr elusen.

CLWB 200 - Mis Chwefror: 3ydd - David & Jayne Jones, Pantlleinau; 2il - CFfI Dihewyd; 1af - Laura & Dyfrig, Aberporth. Mis Mawrth: 3ydd - David & Gwen Davies, Gwarffynnon; 2il - Adrian Colbourne, Clwb Caerwedros; 1af - Eifion & Elenid Jones, Talarwen.



Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Pont-rhyd-y-groes a Rhyd-y-bont

Mae llawer o enwau lleoedd yng Nghymru yn cynnwys elfennau sy'n dynodi mwy nag un ffordd o groesi afon a nant. Byddai'n ddigon rhesymol tybio y byddai elfen megis 'pont' yn siwr o ddisodli'r elfen 'rhyd' dros amser. Mae'n ddigon rhesymol tybio, yn ogystal, mai prif ddiben adeiladu pontydd oedd hwyluso croesi afonydd. Ac mae'n debygol hefyd bod 'rhyd' a 'rhydau' mewn defnydd mwy cyson na 'pont' a 'pontydd' mewn cyfnod cynnar.

Ac mae hyn i gyd yn cael ei gadarnhau, mae'n siwr, gan y flaenoriaeth a roir i'r elfen 'pont' pan geir y ddwy elfen 'pont' a 'rhyd' yn cyd-ddigwydd mewn enwau lleoedd megis Pont-rhyd-y-groes, lle y cafodd y 'rhyd' sy'n croesi Afon Ystwyth ei disodli gan 'bont' gerrig. Tyfodd y pentref yn sgil y diwydiant plwm ac yn ddiweddarach yn sgil coedwigaeth. Roedd y 'groes', mae'n bur debyg, yn nodi lleoliad y 'rhyd' a'r llwybr a ddefnyddiai mynachod Ystrad-fflur.

Gwelir rhywbeth tebyg yn enw Pontrhydfendigaid. Roedd y 'rhyd' wreiddiol (Rhydfendigaid, 1285) yn croesi Afon Teifi wedi ei bendithio ac yn cael ei defnyddio gan fynachod Ystrad-fflur.

Yr un nodwedd, sef rhoi blaenoriaeth i'r elfen 'pont' a welir yn yr enwau eraill hyn o Geredigion: 'Pont-rhyd' yng Nghaerwedros; 'Pont Rhyd-gou' yn Llanbadarn Trefeglwys; 'Pont Rhyd-ddwfn' ger Cenarth; 'Pont Rhydarberth', Llangoedmor; 'Pont Rhyd-y-cyrff', Llanfair Clydogau.

Mewn rhai enwau mae'r drefn hon yn cael ei gwyrddroi'n llwyr a'r elfen 'rhyd' yn cael y flaenoriaeth. Dyna sydd wedi digwydd yn Rhyd-y-bont sy'n enw gweddol gyffredin ac yn digwydd yn Llanbydder, ym Mhenbryn, yng Nghiliau Aeron ac yng Ngharon Is-clawdd.

Yn Sir Fôn ceir Pont-rhyd-y-bont. Rhyd-y-bont oedd enw'r ardal o amgylch y llain gul o dir yng Nghulfor Lasinwen lle'r oedd 'rhyd' yn wreiddiol ac yn ddiweddarach 'pont'. Pan godwyd pont gryfach yn 1765 i gario'r Lôn Bost i Gaergybi, bedair milltir i ffwrdd, cyfeiriwyd at y bont newydd fel Pont Rhyd-y-bont a ddatblygodd erbyn heddiw yn Pont-rhyd-y-bont. Yr enw Saesneg ar Pont-rhyd-y bont yw Four Mile Bridge.

Dau enw mwy cyfarwydd, hwyrach, sy'n cynnwys yr elfen 'rhyd' yw Rhydpwddel yn Llanwenog a Rhydpennau, ger Bow Street. Y tro hwn oedwn dros yr ail enw. Mae'n debyg mai cyfeirio at niferoedd pennau'r stoc (gwartheg a bustych) a fyddai'n cael eu gyrru drwy'r rhyd a wna'r elfen 'pennau'. Yr unig Rhydpennau arall y gwn i amdano yng Ngheredigion yw'r un yn Llannarth - a bellach mae hwnnw'n adfail.

Yn Llanfihangel Ystrad ceir Rhydybennau. Y ffurf hynaf ar yr enw yw Rhyd y benni (1540). Digwydd yr un enw hefyd yn Nanhyfer, Sir Benfro ac yn Llanbadarn Trefeglwys yng Ngheredigion. Enw lluosog yw 'benni'; yr unigol yw 'ben' sef wagen. Dyma, yn ogystal, yr elfen sy'n digwydd yn enw'r pentref Pont rhyd-y-fen yn Sir Forgannwg.

Y tro nesaf bydd cyfle i ystyried yr enwau Pencader a Phencarreg.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel sut mae ffrindiau? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn, ac yn mwynhau mas draw yn yr haul braf yma, ac efallai wedi bod yn gwneud llawer o bethau cyffrous yn heulwen mis Mawrth. Y penwythnos diwethaf mi fues i a fy ffrind Caradog y Crwban yn bola heulo a golchi ein cregyn ar draeth braf Cei Newydd. Roedd yr haul yn grasboeth, felly lwcus iawn fy mod wedi mynd a'm sbectol ac eli haul. Cofiwch blant i ddefnyddio digon o eli haul pan rydych allan yn yr haul

Wel er bod y tywydd wedi bod yn braf i chwarae tu fas, mi wnaeth nifer fawr ohonoch liwio lluniau bendigedig i mi y mis yma. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu a diolch unwaith eto i blant Ysgol Llanwenog a fu wrthi'n brysur y mis hwn eto yn lliwio'r cennin Pedr. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth ddanfôn eu lluniau ataf ond yn enwedig i Hafwen Davies, Ysgol Llanwenog, Jenna Simmond o Gwmann, a Shannon Jones a Cara Elli Jones o Lanbedr Pont Steffan. Y llun wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn yw un lliwgar Lleucu Angharad Rees, Caeronnen, Penffordd - da iawn ti.

Erbyn i rifyn mis nesaf Clonc gael ei gyhoeddi mi fydd llawer ohonoch wedi bod yn bwyta eich wyau pasg siocled, felly beth am i chi fynd ati i liwio'r llun yma o'r cyw yn yr ŵy pasg. Cofiwch ei ddanfôn yn ôl ataf erbyn 21ain Ebrill.

Ta ta tan toc

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

**Lleucu
Angharad
Rees**



Enw:

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



Eisteddfod Sir Urdd Gobaith Cymru



Cerddoriaeth Creadigol Ysgol Cwrtnewydd - 1af.



Charlotte a Joseph, Ysgol Ffynnonbedr - 2ail yn y ddeuawd.



Côr Ysgol Carreg Hirfaen - 3ydd.



Owen Schroder - 3ydd Offeryn Pres

Alpha Jones - 3ydd ar y piano.



Adran Llambed - 3ydd yn y grŵp llefaru.



Charlotte Saunders, - 1af unawd ac 2il Cerdd Dant bl 5 a 6.



Nia Beca Jones, Ffynnonbedr - 3ydd llefaru bl 2 ac iau.



Joseph Gregg - 2ail llefaru i ddysgwyr bl 2 ac iau.



Parti Unsain Ysgol Cwrtnewydd - 1af.



Cân Actol Ysgol Llanllwni - 2il.



Lois Jones, Cwrtnewydd - 2il Cerdd Dant.



Adran Llambed - 3ydd Parti Unsain.



Ymgom i ddysgwyr Ysgol Ffynnonbedr - trydydd.



Côr Ysgol Ffynnonbedr - ail.